



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.


We also ask that you:


- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>







34

“FLORES POETARUM BRITANNICORUM,”

SEF

BLODEUOG WAITH

Y

Prwyddion Britanmaidd,

O GASGLIAD

DR. J. DAVIES,

O FALLWYD.

A'S

LLYFR BARDDONIAETH

O WAITH Y

CATPEN WILLIAM MIDDLETON,

(Gwilym Canoldref.)

Y CYNTAF YN CYNNWYS

Detholion o Waith yr Hen Brif Feirdd Britanmaidd.

YR AIL YN CYNNWYS

RHEOLAU BARDDONIAETH GYMREIG,

Sef y Gelfyddyd o. blethu ac eiliaw Caniadau Cymrei yn Gerddgar Bencerdddaidd, &c.


LLANRWST;

ADARGRAPHWYD GAN W. J. ROBERTS.

1867.

Pris Swlt.

2851 f. 4



F L O R E S

Poetarum Britannicorum:

SEF

BLODEUOG WAITH

Y

PRYDYDDION BRUTANXIDD.

.....
O GASGLIAD

DR. J. DAVIES,
MALLWYD.

.....
Anadl swyn y dlos heniaith—yn ngeuau
Y gynghanedd berffaith,
A esyd drwy fedruswaith :
Leywder gwir ar fiodau'r gwaith.

Blodau hen barabl Eden---wedi'u gwneyd
A gwniadwaith trylen,
Ydyw ei fiodau Awen,
Na wna oed yr un yn hen.---G. COWLYD

.....
LLANRWST:

ADARGRAPHWYD GAN W. J. ROBERTS.

AT Y DARLLENYDD.

AWENGAR GYMRO:—


Gan ddigwydd i gopi o'r "FLORES POETARUM BRITANICORUM," o gasgliad y Dr. John Davies o Fallwyd, ac o'r "LLYFR BARDDONIAETH" o waith Gwilym Canoldref, ddisgyn i'm dwylaw, ac nad yw yn bosibl braidd ddyfod o hyd i gymmaint ac un copi cyflawn o honynt ar gael a chadw yn Nghymru y dydd hwn; tybiais yn addas, o wir barch calon i Henafion a Barddaeth Cymru, ddwyn allan AD-ARGRAFFIAD o honynt.

Wrth ymgymeryd a'r gorchwyl hwn, cyfyngais fy ymdrechion yn hollol i EFELYCHU, yn hytrach na chyfnewid neu ragori dim ar orgraph na diwyg yr argraffiad cynhenid. Llauer hen gyfrol dda, ddiddan, a erehyll anurddwyd o dro i dro, wrth ei hail argraffu, trwy i fympwyon rhai anghyfarwydd eu hudlithio i dynu oddiwrth neu roddiat y gwaith cynhenid, ac fel na'm cyhudder byth o'r amryfusedd dybryd hwn. wele y llyfryn presenol o'th flaen mor debyg i'r copi cysefin ag y gellais ei efelychu.

Yr Eiddot gorph a chalon.

GWILYM COWLYD.

Llanrwst, Rhag. 1866.



FLORES

Poetarum Britannicorum:

SEP

BLODEUOG WAITH

Y Prydyddion Britannaidd.

*O Gasgliad J.D. SS. Th. D. fal yr ydys
yn tybygu.*

Y Cymry mwynion cym'rwch—y llyfr rhad
Holl frodyr darllenwch;
Di far yw a difyrwch,
A llawn budd ond êl i'r llwch.

Os beia neb wrth ysbio—beiau
Lle na bwyf yn gwranddo,
Boed fwyn, beied a fynno,
Beied a difeied fo.

Printiedig yn y Mwythig gan Thomas Jones,
dros D. Lewys. 1710.

Llythyr at y Darllenydd

Y Cymro Diledryw,

YN gymmaint a dyfod i'm llaw,
Casgliad hwn, o eiddo'r Dysgedig,
a'r Parchedig Ddoctor, J. Davies
hud a'r ddeallais, a alwodd ef **Flores**
Poetarum Britannicorum, mi dybiais
yn fuddiol ei brintio; yn gystal er
mwyn ei Awdwr Parchedig, (yr hwn a
haeddodd fwy ar law pob Cymro, nag
a allant byth dalu'r pwyth iddo), ac er
mwyn y llyfr ei hun, yr hwn sydd yn
cynnwys llawer oddysgeidiaeth a chelfyddyd-dyd. Myfi chwanegais ychydig
atto, ac a osodais rai petheu buddiol
eraill allan gydag ef. Gobeithio na
bydd yn anghymeradwy gennyf, gan fy
mod yn gwybod hyn, os na wna ddaioni,
na wna chwath mo'r niwaid itti. Os
bydd neb am farnu a chablu, hyn a
dd'wedaf, Na farned nes deall, dealled
a barned. Os derbyni hyn o'm poen
am llafur. f'ellai (os Duw ai myn)
amser, y ce'i chwaneg.

Y Fiddot yn yr Arglwydd,

DAFYDD LEWYS.

Llan Llawddog, Gor. 10, 1710.



FLORES

Poetarum Britannicorum.

H Hdm Hdduf. *Adami Duo.*

Dau Aldaf oedd dydd a fu,

Od air weithian i draethu ;

Un diriaid enw daiarol,

Un o nef, awn yn ci ôl.

Trown ynghod rhag trin anghall,

Yr holl lu o hwn i'r llall. *Raff R.*

“ Un Adam ddinam i'w ddydd, a'n gwthiodd

“ I gaethfyd tragywydd,

“ Ag ail Adam, gweledydd

“ Ar bren croes a'n rhoes yn rhydd

Gweniaith. Adulatio.

Na chredwn air gwych rhydeg,

Antur o dwyll ond trwy deg.

Gwenwyn ni wn gan un iaith.

Mwy na gwenwyn mewn gweniaith.

T. A.

Hdrilad ar y Graig nid ar y tglwod.

Edificandum in Solido, non in arenæ.

Adeilad trwch, ar dal traeth,

Dwr a'i bawdd, drwy wybyddiaeth,

Llunion adail, lle nodir,

Lle nid ôl y llanw i dir.

W. Ll.

A 2

Oedran

Oedran a phara pethau Bgdol a phethau Bfcol.
Ætates & durationes rerum.

Tri oedran hoewlan helynt,
 Trioedd a fu gyhoed' d gynt.
 Trioedd pawl Gwern a fernir,
 Ar gi da mewn Erwgoed ir.
 A thri oed ei, iaith hoywryw,
 Ar farch, da ei barch e. byw.
 Tri oed march dihafarch droed,
 Ar Wr, ond bychan yw'r-oed ?
 Tri oed Gwr herwr hoyw-rym,
 Ar yr Hydd llamhiydd llym.
 Tri oed carw hwyrfarw hirlfain,
 Ar Fwyaloh goed hirlfaleh gain,
 Tri oed y Fwyalch falchdeg,
 Ar Dder-oen mewn Deiren deg.
 Teir oes Derwen a enwir,
 O Warrant hen ar Rwnn tir.
 Er hyd oes Dâr i'w harwain,
 Byr para'r hwya o'r rhain.
 Pob un ofyn rhwyfyn rhod,
 A dderfydd yn ddiarfod,
 " Nid gwiw i neb wrthwynebu,
 " Mor ing y daw'r An-*eu* du.
 " Angeu nid âd yn angof,
 " Na gwyllt na diwyllt na dof.
 Ni a gweision Ion gwiwsyth,
 Y Gwr *fry* a bery byth ;
 Yn y nef yn bendefig,
 Heb dranc heb orphen a drig ;
 Heb liw nos gwiwnos ganu,
 Heb fwg heb dywyllwg du.

Iechyd heb orfod ochain,
 O glwyf mor iached a'r glain.
 Pawb yn ddengmlwydd, arwydd Ior,
 Ar hug-in, heb ddin, yn rhagor.
 Lle mae pob prif ddigrifwch,
 A Phlas ein Pennadur ffwch.
 Gochel uffern gethern gaeth,
 A'i helwyr, drwy hy alaeth,
 Lle mae'n barod cyfnod cas
 Bachau cyweiniau gwynias :
 ? A'r Iâ ni thoddes ei oed. } 2
 A'r Eiry gwyn cyn cannoed, } 1
 A maglau, rhwydau mal rhod,
 Megineu, Peirieu parod,
 Awn bob ddau a golauad,
 I eglwys Duw ein glwys Dad,
 A thalwn (pam na thelir,)
 Offrwm a degwm o dir. Iolo.

*Cervant. Amiei, Clientes, & cognati
 in pracio habendi.*

Gwyr a wna'r gwr yn wrol,
 Gwr a wna gwyr yn ei ôl. Llo.
 Gwr a wella'r gwyr wellwell,
 A gwyr a wna'r gwr yn well. D.N.
 Naws Carennydd, nis crina,
 Cywir a dwys fydd câr Ja.
 Gwell ydyw, ac o llidir,
 Gar yn d' ol nag aur neu dir. S. T.
 Trowch o wenwyn trwy 'ch iawnwaed
 Triagl yw gwynt arogl gwaed. T.A.

A garo ladd ei geraint,
 A gyll ei frig oll a'i fraint. *Jos. F.*
 A dreisio 'i wyr a'i drassau,
 A ell yn hawdd oll wanbau. *W. Ll.*
 Crin yw dyn, car ni 'dwaenir
 Nid car da ond aec o dir. *S T.*
 A fo balch ef a heb wyr. *D. N.*

*Cas Geraint Amicorum,
desresian, Lingua cohibenda.*

Car yn cyhuddo arall,
 Hawdd i'r llaw, gyhuddo 'r llall,
 Noethed bawb, nithied heb wir,
 Fai gilydd, ef a goelir.
 Gair a drig ar y drygwaith,
 Ai liwio 'r gwaed lawer gwaith.
 Cywilydd car dios arall,
 O bai wir llwyr yw bai 'r llall.
 Attal saeth nid dilys ynn,
 A el unwaith o lilyn. *T. A*

Adyd a gorthwyneb.

Afflictio Purgat.

A nithio gloyw wenith glan,
 Y ller oll a yrr allan. *O. G.*

Gariad, Ofn, Clebryd.

Amor, Metus, Fortitudo.

TRwy oirieu llied y try 'r lleill,
 Trwy gariad y trig eraill. *H. D.*
 Ofn dy lu o fewn dy wlad,

Etto

Etto goreu i ti gariad,
 Gwell yw bodd a gallu byw,
 Na dwyn swydd, dyn sy heddyw. *T. A.*
 Gwell rhy draws heb godnaws gwan,
 Yn rhyw dro, na rhy duan.
 Argoel yw, ni lywir gwlad,
 Oni cleir, ofn a chariad.
 Da yw'r maen lle bai dair mil,
 Yngod gyda'r Efengil. *R. Ll. R. R.*
 Na phar d'ofn Offeiriad wyd. *T. A.*
 Ni myn cariad ei wadu,
 Na'i dlangos i lios lu. *D. G.*
 Mae'r Ddihareb no'r ddiras,
 Na bu gu iawn na bai gas. *I. Deul.*

I'r pant y rhed y Dwr. *Aquæ defluunt,*
 Y dwr pur a red i'r pant.

Creffft. *Ars.*

Gwell yw Crefft meddi, hir hud,
 Na Gwylan, *Befr.* na Golud. *D. G.*

Gybydd-ŷad, Hlusrif. Arlun.

Avarita, Eleemosyna, Liberalitas.

Crino dyn yw crwnni da. *T. A.*
 Na ŷad drachwant yn drechuch,
 Nid yw'r byd onid awr bach. *S. T.*
 Cymmer drwy wychder dy ran,
 Gad i eraill gadw arian. *T. A.*
 Iawnach i Gybydd enwir,
 Garn Duw nag erw o dir;
 A phrynu *Nef* tiwy tefair,

Gan.

Gan Dlawd er Cerdawd y cair.
 Pryned ddyn prin oed ei ddydd,
 A'i dda, *Nef* iddo'n ufydd.
 Beth a dâl onid dialedd,
 Da'r byd wrth fyned i'r bedd? *M. .*
 Colli'r clustiau cau cedyrn,
 Cilwg hir, cyn cael y Cyrn. *G. C*

Ærygffars, *Audacia Inverecundia*

Ef ai'r Afr wrth ei ffafriaw.
 Oll o'r drws, i'r Allor draw. *L Mon.*

Datur. *Ausus.*

Ni chafed pryd na chyfoeth,
 Trin ddwys heb anturio'n ddoeth. *B. I*

Dndrech y Cnabod a'r Dspr y'

Carnis & Spiritus Pugna.

Ymargio'm blino'n ddwy blaid,
 Mae yno 'nghorph am Enaid.
 Yr enaid, ni châr ronyn,
 Garo y Corph, gorwag gwyn.
 Ni fyn y corphyn pe caid,
 Iddo a fynno f' ena'd.
 F'enaid, o caid, a fyn cael,
 Fwyd o *Nef* dan ei afael. :
 Y corph a fynu, heb nac-cau,
 Gael iddo, win a Gwleddau.
 Yr Enaid, yn wirionnach,
 A dan y byd, fal dyn bach :
 Y corph a fynn a'r llyn llawn,
 Ragoriaeth, ar y gwiriawn. *Chwanog*

Chwanog yw'r corph bywiog bach,
I feddwi, a chyfeddach ;
Gofyn y mae am gyfedd,
Gofyn mae, drachgefn y medd. *L. G.*

Crist ym rin Bristwað. *Christus uni-
cum Sacrificium & unica salus,
Ejus Vulnera.*

Nid oes offrwm, trwm yw'r tro,
Oen Duw ufudd, ond efo. *B. R.*
Goreu pardwn, gwn a gaid,
Gwaed yr Oen, gadw'r ena'id. *S. T.*
Ceisio gwilio, pob gweli,
Ar Dduw *Nef*, yr oeddwn i ;
Un man cyfan nis cefais,
Heb gael ei waed, a heb glais. *J. B. hir.*
" Ni all Angel penfelyn,
" Na llu o saint, ddim lles yn ;
" Na neb ond un a'i aberth,
" A roes i ni, Ras a nerth. *G. J. Ll. F.*
" Pwy ar ol a ddug ddolur,
" Er tynnu pawb o'r tan pur ?
" Ni fydd yn yr oes a fo,
" Un Brenin, mwy a'n pryno.

¶ Deſ, *Cælum. vi. Ætates, & Mors,*

Da yw *Nef*, i'r dyn aſiach,
A da yw *Nef*, i'r dyn iach. *L. G.*

Enllunwrk. *Concordia.*

Da'r ardd Ychen, mewn pen pant,
A chyttun

A chytun, o chytynnant. W. Ll,
 Cymmer re swin, trwm bod rhôch,
 A dod resswin, da drossoch. T. A.

Consilium.

Bwrw ty sy well, Brutus hâd,
 O gyd alw, nâg adeilad. T. A.
 Gwir diau caiff gwrda call,
 Gynghor gan un llesg angall. S. T.
 Llew enwog, gallai amloeth,
 Ynghwrr dysg, gynghori doeth. S. T.
 Ef a goid dysg, fagad hardd,
 Gan ynyfd, ac unionfardd. T. A.
 " O rhoi gyngor, rhag angen,
 " Edrych bwy, a droech ei ben,
 " O gelli roi i gall ran,
 " Ac i angell, nâg yngan.
 " Deall y gair, diwall gwych,
 " Gwna d'atdeb, cyn y dwettych,
 " Gwilia byth, beunydd lle bych,
 " Yn ddiddadl, a ddywedych;
 " Am bwy'r aeth, a pha draethen,
 " Ac wrth bwy, y gair o'th ben. O. G.
 " Na ro d'arian, allan wr,
 " Heb wystl it, er neb Bostiwr;
 " Ac o rhoi, drwg yw'r rheol,
 " Cei lawn waith i'w cael yn ol.
 " At Gyfreithwr, gwladwr glan,
 " Na ddyred yn ddi ariân;
 " Nid plesser dy fatterion,
 " I'r gwr braisg heb Aur ger bron. T. P.
 Hvgoeledd

Apogoeledd. *Credulitas.*

A goelio pawb, y glew pŵr,
 † ddaw'n waith, iddo wneuthur. *T. A.*
 Clyw'r ddechwedl, claiar ddichell,
 Calon bŵr, cyn goelio'n bell. *S. T.*

Duŵ. *Deus.*

Nid oes Arglwydd cnd Iesu,
 Na Brenin gorllewin llu. *Iolo.*
 Gwell yw Duw. na gallu dyn. *O. G.*
 O byc'd cyfyng heb endduw,
 Gan ddyn, mae'n ehang gan Dduw. *G. I. H.*
 Duw a rydd gwyp, i'r drwg wr ;
 Duw a gytyd ei gofiwr. *H. Ar.*
 Oes im ddim o ddaioni,
 Onid a wnaeth, ein Duw ni. *D. Ed.*
 Rhan dda iawn, rhan Dduw yna,
 Yw rhoi dawn fyth i'r rhai da :
 Rhan dyn, o'r nodeu uniawn,
 Yw gwedi dêl, gadw y dawn. *S. T.*
 Dialedd Duw, ai olwg,
 A ddaw yn drwm, i ddyn drwg.
 Difrys y denfyn Duw fry,
 Y dialedd, lle dyl. *D. Ll.*
 Ira rhodd, ar wyr heddyw,
 A goreu stâd, yw gras Duw. *H. Ar.*
 Rhaid i'r un y rho Duw ras,
 Gydgerdded gydag urddas. *T. A.*
 Mwa gras, yw yngroesi. *S. T.*
 Gwaith blin ac annoethineb,
 Ymryson oll, am ras neb. *T. A.*

(10)

Flores.

Ni fynno, Duw *Nef* anwyl,
Ni lwydd, ac nid rhwydd yr hwyl. *Sim. F.*
Y mae'n well, be deallyn,
Byth Duw, na gobeithio Dyn. *S. T.*
Gwae a gred Uwch caledawr,
I ddim oll, ond i Dduw mawr. *Ioth.*
Namyn a ddywettwy, o Dduw a mab Mair,
Nid oedd iawn i ddyn, ddywedyd gair, *Br. F.*

*Inghybandeb. Discordia facile orta'
difficulter sopita.*

Goddaith a roir mewn Eithin,
Gwanwyn cras, trwy'r gwynnon orin;
Anhawdd fydd ei ddiffoddi,
Ac un dyn, ai hennyn hi.
Athrodion gweision y gwyr,
A bair adwyth; rhwng brodyr:
Geirieu da, a gwyr i'w dwyn,
A ddiustr, y ddau wenwyn. *D. I. D.*
Ar Iesu, mae rhannu rhod,
Ac o gythraul, goeg athrod. *L. G.*

Blaenor. *Dux Fortis.*

Beth a yrr blaen. byth ar blaid?
Blaenor a byw ei lonaid. *T. A.*
Ofer yw Llu ef a'i i'r llawr,
O bai lonydd, y blaenawr. *S. C.*

Clusen. *Eleemosyna: vi. Avaritia,
Liberalitas.*

A rydd hael, yw'r eiddo 'i hun. *T. A.*
Dyn

Dyn a ran, da yn ei raid,
Duw a ran, da i'r enaid. *G. G.*
Na roed neo, cywirdeb call,
Er gwst, Aur ar gost arall.
A fo hael, gafael gyfun,
A hy, bid o'i dda ei hun. *G. Ll.*
Ni wyr y llawn, o'r holl iaith,
Wich y gwâg, orwâg araith.
Pam nad ystyr, byrr yw'r byd,
Goludfawr, wrth galedfyd? *S. T.*

Siampelen.

Exemp'a.

Cyngor periglor Eglwys,
Ydoedd i ddyn (pand oedd ddwys)
Gwna archwy yn gynhyrchiol,
Union farn, ac na wna'n f'ôl.
Ninneu o'n rhwysg, a'n ynni,
Union a wnel, a wnawn ni.
Yn ôl anwiredd y naill,
Anwiredd a wna eraill. *M. R.*
" Rhyfedd iawn, rhyw fodd ewyn,
" Meddaled yw, meddwl dyn!
" Na wêl dyn engyn angall,
" Y llân y syrthiodd y llall.

Lygattyn.

Fascinatio.

Arwyddion Diawl ar ddyn du,
Yw tonnog lygattynnu,
Ni ddaw un tro'n dda, ond drwg,
Ac a welo drwg olwg.

Glewder

Fl. Dec. Fortitudo.

Nid yw rhyfel, un helynt,
 Mal ar gyrph, y milwyr gynt.
 Nid arfod yn y dyrfa,
 I berchi dyn. a braich da.
 Egwan ddyn, a gwain o ddŵr,
 A dyrr nerth. a Dwrn Arthur.
 Nid gwaeth Corr ffraeth, lle cair ffrawd,
 Na Sampson, os â ymsawd. *Edm. P. i'r Gwn*
 Dewr a gair, ei drugaredd. *W. Ll.*
 A fo dewr hael, ar fyd rhwydd,
 Nid i lesg. y deil ysgwydd.
 Pam mai rhaid, o baid yn ben,
 Dro'r gwnn, i daro'r Gawneu? *W. Ll.*
 Na wna gynnw, â gwannwr,
 Heb weddi gwan, heb wedd gwr.
 I le bu ryw gam, llwybr a gaid,
 Gwnewch iawn, er gwyn i'ch enaid. *T. A.*
 Am air chwyn, cymmerwch iawn,
 Myn degwch, mwy na digawn.
 Am weithred drom. o throid dryll,
 Gwna weithred, neu'r gwayw'n wythdryll.
 Pe lladd, er pwylllo heddyw,
 Pryfia di, pa ryw fyd yw.
 Byd twyll, heb adnabod dyn,
 Baedd drŵd, adnebydd dridyn :
 Dy gystal, od ai gosti,
 Dy well dy waeth, deall di.
 Na chyffro un, uwch ei ffrwyth,
 Ac na ddeffro, gan ddiffwyth. *T. A.*
 Gwna gadarn, gynnig oediaw ;
 Gwraudo wan gwirion o daw.

Na chlyw, mwy na choel ewyn,
Flas y dwr. ar falais dyn.
Fe wna gwan, o fewn ei garn,
Ryw hoccedion, i'r cadarn. *T. A.*
Eiriach y neb, aroho nawdd. *T. A.*
Ni bydd gwan, heb iddo garn. *T. A.*
Gwraidd a gyrraidd ei gas. *D. Ll.*
Lluddias urddas i ddewrddyn,
Lluddias Môr, lle'dd â os myn. *G. Gl.*

Cynllloch. Frugalitas.

A bryno tir a braint da,
Yn ei ardal, â'n wrdra.
A wertho tir wrth y tai,
Efo weithian, a fethai. *L. G.*
Teyrn i Defyrn, od à,
Ei draul, a gymmedrola. *H. D.*

Enn. Homo.

Ni bu yma neb ammarch.
Un wedd yw pawb ond eu parch,
Dir yw i bob aderyn,
Dysgu arhydeddu dyn :
I ddyn e orwedd'annof,
Ac ar ei law, e ddaw'n ddof. *G, Ll.*
Rhyfedd diwedd blodeuyn,
A rhyfedd yw diwedd dyn,
Dyn bob gronyn a grina,
Fal y dyn blodeuyn da. *L. G.*
Tyfu o goed diofer,
Y bu fal pob afal pêr.

O cynhara, cyn hiroes,
 Ni-ddeil yn niwedd ei oes. *T. A.*
 Ni phery gloywder seren,
 Na'i phryd, ond ennyd i wen.
 Dail Ieuaingo, hyd wyl Ieuain,
 A bery'n glos, ar bren glân :
 Wedi hynny oed hen-nyth,
 Wiwach grinach, bellach byth.
 Ar un sud, er nas edwyn,
 Y Mesur Duw, amser Dyn. *B. Br.*
 Iesu, ai hud yw'r oes hon,
 A adeilodd hudolion ?
 Dail a ddigwydd bob blwyddyn,
 Dis a'i dwyll, ydyw oes dyn. *L. G.*
 Darfu megys ar derfyn,
 Y dydd, felly derfydd dyn.
 Mabolaeth mab a welir,
 I barhau, fal bore hir :
 Diau i'r mab, wedi'r maeth.
 Yn greulawn, ddwyn gwrolaeth ;
 Wedi hyny, daw henaint,
 Ac yn hen, gorweddgan haint.
 Yna nosa, dan Iesu,
 Einoes y dyn, yn nos du. *G. Gl.*
 Trimodd, pond da'r ymweddyn,
 Hudol, a Dis, a hoedl dyn ? *T. A.*
 Yn eu dadl, echdoe'n d'wedud,
 Ddoe'n fyw iach, a heddyw'n fud. *L. G.*
 Breuola braw i'w Elyn,
 Dim ar y ddaiar yw dyn. *Iolo.*
 ' Breuach na barr o ewyn,
 ' Yn ei stâd, yw einoes dyn. *L. G.*

Duw

Duw biau, nodi bywyd,
 Duw ba beth, a dyb y byd? *T. A.*
 Pob cadarn a farn hyd fedd,
 A wnai Dduw'n wan ei ddiwedd. *L. Mor.*
 Gan rai wrth ganu yr oedd,
 Ymryson am yr oesoedd;
 Un a'i heirch, megys Noe hên,
 I oed Eryr a Derwen;
 I'r Llew y tebygai'r llaill,
 I Geirw y tebyg eraill.
 Ni thelygwn hwn, i Hydd,
 Nag i adar, neu goedydd.
 Difai gennyf ei dyfiad,
 Dwyn oed hir, a dawn y tād. *H. C. Ll.*
 ' Cwyno'r ydwyf, rhag henaint,
 ' Cwyn hir gan ddryghin a haint,
 ' Cwyno anwyd, cyn ennyd,
 ' Colles oll y gwres a'r gwryd.
 ' Gwden anwydog ydwyf,
 ' Gwedi nerth, gwywa dyn wyf.
 ' Tra fum i mewn tyrfau mawr,
 ' Was ynfyd, Ifango sonfawr,
 ' Ebrwydd ehydrwydd hoywdrum,
 ' A chryf iawn, yn chwarae fum: *L. Br. H.*
 ' Di eiddil, a da oeddwn,
 ' A chryf, a gorwyllt a chrwn:
 ' A hefyd esgyd ysgawn,
 ' I ben yr allt, buan 'rawn:
 ' Trin y bel, a phob helynt,
 ' A rhedeg fel gwaneg gwynt,
 ' Heddiw os i'r Rhiw yr af,
 ' O arfeddyd, hwyr fydlaf. *Si C.*

- ' Lle bo'r gamfa ferra fach,
 ' Llymsi fyddaf yn llamsach.
 ' Ni chredir, nychu'r ydwyf,
 ' Y rhodia'i mwy, rhy drwm wyf.
 ' Un llŷn yw hŷn, a henaint,
 ' Yn ful, gau ofal a haint :
 ' Ysceirieu yn yscyrion,
 ' Y sydd i'm ffydd, yn ddwy ffon :
 ' Ysgwydden, anosgeddig,
 ' A chorph, heb na lliw na chig.
 ' Gleinieu fy nghefn, a dreŷwyd,
 ' Yn gerrig craig, neu gorc rhwyd.
 ' Rhyfedd yw'r Ais, a'i rhifo,
 ' Fel cronglwyd lle tynnwyd to. *I. Br. hir.*
 ' A'r breichieu, fal ffystieu ffyn,
 ' A gwayw sy ym mhob gewyn.
 ' Anaf lcsgr, yn goresgyn,
 ' A'r blew a'r gwallt, yn blu gwyn :
 ' A'r dannedd o salwedd son,
 ' Afluniaidd, yn felynon.
 ' A'r olwg ddiwg ddeall, *S. C.*
 ' Truan o ddyn, yn troi'n ddall.
 ' Gwreinaint, caf waith ymgrafu,
 ' Sy haint gyda'r henaint du.
 ' Crynedig i'm croen ydwyf,
 ' Cryniad deilen, Aethnen wyf.
 ' Gwr oerach, nag Eryri ;
 ' A Berwyn wyf, i'm barn i.
 ' Ni thyn na chlydwr na thŷn,
 ' Na dillad, f'anwyd allan,
 ' Troi a sefyll. tra safwy,
 ' Tan grafangau'r angeu'r wy.

' Rhoed Duw'm bwill, rhaid im bellach,
' Ryngu bodd, yr angeu bach. *F. Br. hir.*

Hi hwl neb am beth ni hwl.

Ignoti nulla cupido.

Nid raid i ddyn; tywyn tes,
Wylaw ond am a weles. *L. G.*

Enwadalloch. Inconstantia.

A arddelwo. o'r ddwylwy,
Ni wyr a ddaw un o'r ddwy. *P. Deul.*

Ei hwydrhwydd. Industria.

Trech yw y gais fantais ferr,
Na'r hwn a geidw o'r hanner. *M. R.*
Trech yw a gais, trwy awch gwg,
Nag a geidw, rhag direidwas,
Ei ddyn gwynn, ar ael glynn glas,
Nid hawdd cadw, cymmen wenn wych,
Rhag lleidr, yn rhygall edrych. *D. G.*
' Trech a geisiodd, o'i fodd fis,
Gwag ydoedd, nag a gedwis. *N.*

Ei hwl. Languescere,

Nid gwr ni newid gware,
Nid llong, heb fyned o'i lle. *G. G.*

Tras, Traha. Oppacssio, Arro-
gantia.

Byth ni thyf dawn, yn iawn wedd,
Bron oer, lle bo'r anwiredd.

A fo'n gam ni fynn y gwir;
 A fo'n iawn, ni fynn anwir. *H. A.*
 Na chwsq awr a chas gwiriawn,
 O gwnai gam, heb gynnig iawn. *T. A.*
 A gasgler ar farch malen,
 Ni thyf mwy na gwenith hen. *D. L.*

Destun. *Inscriptio.*

Erioad ni welais yr un,
 Euraid wystl, a roi Destun,
 Na cheffid meddid i mi,
 Dyst iawn orn, Destun arni. *O. G.*

Cynfigen. *Invidia.*

Gwrda ni ddeil gair gan ddaint. *T. A.*
 Gwan a fâg y genfigen,
 Gwannwr byth, nis gwna ar ben,
 A fo gwan, genfigennwr,
 Hir yn was, a hwyr yn wr.
 Calon pob gwr aflonydd,
 Cneuen y genfigen fydd.
 Camp hen genfigen ar fêr,
 Cnoi galon, cyn y gweler,
 Curo'r Ais, fel cyrriau'r ôg.
 Cnoi y cylla, cnoccellog.
 Ac yn grin iawn, gwan ei gred,
 Ac a lysg, fal golosged.
 Llenwi bron, yn llawn â braw,
 Llogi fal y geill ysgaw.
 Y llu Diawlaid, lle delynt,
 A fagen genfigen gynt. *L. G.*
Gwas

' Gwae wr llesg, medd y gwyr llen.
Gwan a fago genfigen.
Cenfigen flin o'i thrinio.
A llysg ei pherchen yn lo.'

Henngryd. Ieuentus.

Y winwydden, a nyddir
Yn egwan iawn, ac yn fr;
Pan el yn hen gangen gu,
Ni oddef ddim ei nyddu. B. Aerdd.

Drwg.

Gwr a wnel drwg i arall,
Wedi lladd, arhoed y llall. I. G.
Drwg a wnaeth, a drig yn wall,
Draw, ac aros drwg arall. D. Ll. de Rî. 3.
A wnel argae gwae a gwall o'r Deau
A gaiff dial cuall;
A wnel drwg, o dreigl angall,
A llaw arhoed y llall.
Nid diofal ffyrddal ffer,
Y Gelyn a wnel galar;
A laddo ddyn a'i loyw ddâr,
I luddias hoedl, a leddir. D. G.
A laddo gwr a chledd gwyn,
Ef a leddir, ryw flwyddyn. N.

O'r Drygau Goreu'r Lleiaf. Ex
malis minunum eligendum.

Bwy ni wyr, na bai'n orau,
O lleddid un na lladd dau? D. Ed.
O'r holl ddrygau, diau da,
Gwyr llawer, goreu'r lleia. N.

Ulam. Mater.

Denair oedd raid eu deall
 Gair Mam, gair Llysfam yw'r Haff.
 Gwall yw son, ond gwell synwyr,
 Deg nag un, digon a'i gwyr. *T. A.*

Gwydd. Mendacium.

Celwyd l ni wna ond cilwg,
 Nid da heb droed, un tyb drwg. *G. I. Ll. F.*
 Celwydd a'n gelwydd golau,
 A gwir a fydl, gwir nil gau. *N.*
 Cyfled mantell mewn celli,
 Gwrthwyneb a'i hwyneb hi.
 Ac nid cyfled gweled gwir,
 Ar ei wyneb ar anwir. *Ior. F.*

Angau. Mors.

Dir i'r bobl, dewr yw'r bwbach,
 Ryngu bodd, yr Angau bach. *G. Gf*
 A fago'r ddaiar aren,
 A lwngc hi fal afangc hen *G. Gf*
 Ni chair Mach, i wr am oes,
 Ni bydċ un heb ddwy einioes. *T. A.*
 O Angau, ni ddiengir;
 Ac nid â heb neb yn wir. *H. D.*
 Ni bu erioel, neb o'r laith,
 Neu frenin, heb farw unwaith. *I. B. Ll.*
 Pob un a aeth, pawb yn wâr,
 Ar ei ddiwedd, i'r Ddaiar.
 Minneu nid oes i'm annedd,
 O'r Byd, ond fy hyd o'r Bedd. *W. Ll.*

Dyn

Dyn pe cyn gryfed a dau.
 Difyngor y dwg Angau. *M. B.*
 Ni all Da'r Byd, ennyd awr,
 Ystyn einioes dyn unawr. *W. Ll.*
 Dynion Ieuaingo a dynnir,
 Dyn hen ni edy; Duw'n hir,
 Nid hwyrach Croen Oen unawr,
 Na'r Ddafad, i'r Farchnad fawr. *Ll. G.*
 Ba wr o bai hir ei Oes,
 Ba Dda a wna byw ddwyoes?
 Ba ryw hael, bŵr wehelyth,
 Ba rai beilch, a bery byth?
 Ba ddyn o bai dda ei waith,
 Ba Frenin heb farw unwaith? *Ior. F.*
Hector gadarn o'r farn ſau,
 Ni ddiangodd, yn nydd Angau.
Hefyd Arthur, ddihafarch,
 Ond tra fu, ni bu'n ei barch. *G. Gl.*
 Eryr gwyllt, ar warr Gellyydd,
 Nid ymgei, pan ddel ei ddydd.
 A'r Pysg, a fo' mysg y Môr.
 A ddwg Angau'n ddifyngor.
 Y Byd oll, be deallwn,
 Ar a sydd, a erys hwn,
 Beth a dal byth o deliwch,
 Dewrder oll, o doi awr drwch?
 Ni bydd o wr, o bai dda,
 Ond arfod, yn y dyrfa:
 Ban na ddeil Bwa'n y Byd,
 Ywen, dorgoch, ond ergyd.
 Gwalch a haeddai, Glych heddyw,
 Hyd ei Derm, ei hediad yw.

Os march cryf, os merchyg rhai,
 Nid oes arno, ond siwrnai.
 O diryna, Duw'r Einioes,
 Awr ond un, i wr nid oes.
 Pand drwg yw, pwy it tragywydd.
 Pan na ddeil dim, dan ddel dydd.
 Er Main gwerthfawr, mewn gwrthfyd,
 Er o Aur Bath, a roi'r Byd,
 Er da pwys, i wrda pŵr,
 Ni chaid hoedlyn iach Dudur. *T. A.*
 Tair Merched, tair tynged hon,
 Y sy'n dwyn, oes ein Dynion.
 Un a gynnail, Gogailyn ;
 Arall a Nydd, Dydd pob Dyn :
 Trydedd yn torri Edau,
 Er lladd Iarll, a'r llu Ddiw Iau. *A. Gl.*
 Dled ar bob Dyn, dyohryn daith,
 A'r aned, yw marw unwaith.
 Y Gronyn hedyn hoywdeg,
 A fwrir, yn y Tir teg ;
 Nid egina, da yw'r daith,
 Y Grawn nes llygrn unwaith.
 Ac un llygriad, a hadyd,
 Yw Dynion, beilohion y Byd.
 Ac eginogogoniant,
 Ys da nerth, drwy Grist a wnant.
 O mynnwoh gael, heb ffaelið,
 Y Wledd fawr, arlwyodd fo ;
 Crynwch hwnt i'ch croen i'ch oes,
 Crinion yw oeingociau'r Einioes :
 Rhowch eich gofal, bob Calon,
 Ar Grist fry, ar groeswaed fron.
 Yno dowch, bob un a dau,

Oll i'r fan, lle'r wyf finnau.
 Lle nid oes, na garw-loes gâr,
 Na diaiedd na dolur :
 Nac erlid, llid, nac oerloes,
 Na dig, nâ galar, nid oes :
 Na *Newyn*, chwerwddyn, na chwyn,
 Na syched, na nos achwyn :
 Byw'n y *Nef*, bawb yn Ifango,
 Heb dorri Oes. a heb drang. *T. A.*
 Duw wyn biau dwyn bywyd, *B. Br.*
 Pa Ddydd y derfydd pob Dyn?
 Y Dydd, a roes Duw iddyn. *W. Ll.*
 Os Duw a ddewis y Dyn,
 E wyl Duw, ei flodenyn. *T. A.*
 Cynuar y gwna'r Ddaiaren,
 Cyfalhau Ieuango fal hên.
 Unllwybr a gwaith y winllan,
 Ydyw'r llu, yn myn'd i'r Llan.
 Dynion Ifainge dihany,
 Yn fore ànt. i *Nef fry* :
 A rhai yn hanner eu hoes,
 Oedd hanner dydd eu Heinioes. *G. Gl.*
 Da diweddar dedwyddy. *T. A.*
Newidiais fyd iawn ydoedd,
Newid wych, im Henaid oedd. *A. A.*
Nid marw ef, nid mor ofyd,
Nid byw, ond newidio Byd.
 Duw ysydd, dwv Oes heddyw,
 Un fry fyth, un *ferr* i fyw. *T. A.*
 Gwysir yr Enaid gwiwsyth,
 Mawr boen, ni bydd e marw byth.
 Duw a'i rhoes, mewn Daiar hên,
 A Ddeiryd i'r Ddaiaren :

Daiar

Daiar i Ddaiar ydd â,
Yr Enaid, i Wyr Anna. I. R. Ll.

D. E. D. *Mundus Transit.*

Ffyrf yw brig, ffurf y Bregeth,
Ffei o'r Byd, na phery beth. T. A.
Gwae ro ei fryd, er hyd rhus,
Ar ein Byd, mawr enbydus.
Doe'n Arglwydd Canheidlwydd Cêd ;
Heddyw dan yr anhudded. Gr. Gwef.
Rhidyll hudolaidd rhydwn,
() Fyd, ar ei hyd, yw hwn,
Y Macowy llawen heno,
Hyfryd ei fywyd a fo,
(Breuddwyd aruthr ebrwyddarw)
A dry y fory yn farw. D. G.,
Na rodded un Cun ceinsyth,
Fryd ar y Byd, fradwr byth.
Estron Was, os dyry'n wir,
Fud ellwng, ef a dwyllir,
Hud yw Golud, a Gelyn,
Brwydr dost yw, a Bradwr Dyn,
Weithiau y daw, draw draha ;
Ac weithiau yn ddiau'dd â.
Mal trai ar ymylau Traeth,
Gwedi llanw gwÿd â lluniaeth.
(Hwerddid Mwyalohr ddichwerwddceth,
Ynghelli las Cathllelas coeth ;
Nid erddir, Marlbridd iddi.
Nid yrraidd Hâd, nid Ardd hi :
Ao nid oes Edn fergoes fach,
A'i thruth oll, ei thrythyllach. D. G.
Gwnae'r

Gwae'r neb er cwbl o'i Febyd,
Byth a'mddirietto i'r Byd.
Gwae a gollo nawbro Ner,
Dŵw Nef, er donieu ofer. *Iolo.*

Enw Da. Nomen Bonum:

Gair a dynn gariad i wr. *N:*
Y dyn a'gaffo Enw da,
A gaiff gan bawb ei goffa. *L. G.*
Dyn arall mynn dwyn Arian;
Dwyn ei glod, a fynn Dyn glân. *Iolo.*
' Y Gwr a haeddo gariad,
' Yn ei flaen a nofia'i Wlad;
' Dyn taerwyllt annaturiol,
' Drwg ei naws, a drig yn ôl.

**Hardd pob newydd. Nova
pulchra.**

Y'mae'n Ddihareb i'm Oes,
Hardd fydd pob newydd nawoes. *S. T.*

Skwydd. Officia.

Ni phery swydd ond blwyddyn. *Ior. F.*
Offis bob drimis a dry,
Na chais un achos hynny. *L. M.*

**Gweithred a Ddengys. Opus
vatum indicat.**

Y mud cu, ammod cywir,
Osgwell, a ddengys y gwir.
Gweithred un heb goethair da,
Yn goeg iawn, a'i gogana. *W. Ll.*

Golud. Oses.

- Bonedd heddyw, ni wedda ;
Bawaidd yw Dyn, ni bydd Da, *Ior. F.*
Er ammeu, o rai ymma,
Er hyn Daw, sy'n rhannu Da. *T. A.*
O Erw i Gant, yr â Gwr ;
O ddwy'i un, ydd â anwr. *I. Doul.*
Nid ery, Blaned araul,
Y Rhew, yn wyneb yr Haul. *O. G.*
Ni ddaw Eiry'n nydd araul,
Yn y Rhiw, tywynno'r Haul. *D. N.*
Erioed, ni thrigodd yr Ia,
Ar Ffynnon, Fis Gorphenna. *N.*
Ow gwyl di Ddyn, gael dy Dda,
A chymmer, tra fych ymma.
Na fydd Gybydd, Celfydd Call,
I ddwyn Aur, i Ddyn arall.
Cymmer drwy fwynder dra fych ;
- Dod ran o'r Da a drinych.
Y Da ddel, yn dy ddwylaw,
Gwell it roi, na'i gollf draw. *S. T.*
Gwr ni wyr, *gronni Arias.*
Onid y Rhent, a'n dair rhan ;
Un i'w Lys, a'i Win o'i Law.
Wrth yr Aelwyd, i'w threuliau ;
Yr ail i *Weiniaid* a rydd ;
At yr Adail mae'r trydydd. *G. G.*
Da byw eu dwyn, Duw biau ;¹
Duw biau rhoi, Da'i barhau. *S. T.*
Yr Aur ei adael sy raid,
Yn Dwrr, i ryw *Ddyn diriaid.* *S. T.*
Murio Da, marw'n diwedd ;

A Da'r Byd, nid â i'r Bedd. . Ll.

Crys gwyn, a'i dilyn i'w Dy;

A Gwialon, yn Gywely;

Ar Elawr, heb fawr wylaw,

Ac i'r Llan, yma ger llaw. S. T.

Nis canlyn o'i Dda, o'i Ddiffer, ymro

Onid ei Amdo, amdlawd biner. Gr. Yn.

A Da'r Byd i gyd a gedwir, dros bryd,

A Da'r Byd i gyd, yma y gedir. W. Ll.

Trais. *Oppressio Pauperum. vi.*
Injuria & Origo.

A fo traws, fo'i try Iesu. S. T.

Nid rhyw iddo ladd truan;

Nid Clod ceisio gorfod Gwan. L. G.

A dreisio Gwan, draw is gil,

E drippia, Mab Duw'r Eppil.

A fo'n enwog fyw'n uniawn,

Fe rydd Duw, fawredd a Dawn. S. T.

Y oystiawnder, oof undod,

A yrr gwr hael, i frig rhod:

Y Trawsedd, a wnel Treisiwr,

A dynn ei Dal, dan y Dwr. W. Ll.

Cammen a beieu lle bon,

A yrr Ddinystr, ar Ddynion.

Efa Treisiwr, fo trawsaidd,

Fal pren Onn, mewn bron heb wraidd.

Byw'n gymmwys, heb hen gammau,

A oair i hil Gwr barhau.

Anllywodraeth a lledrad,

A lygra hil Gwr a.i hâd. W. Ll.

Byw ar gam, drwy Bwer gau

A dyn Ddynion dan Donnau. W. Ll.

Gwell

Gwell i Wr, goll ei Arian,
Na cholli gweddi *Dyn* gwan. *W. Ll.*

Urddau. *Ordines Ecclesiastici.*

Mwy yw'r henw, mae rhai henoed,
Ar ddyn gwych, Urdeu nag Oed. *T. A.*
Ba raid Gradd, hyd Neuadd nonn,
Burach, nag y bu Aaron. *S. Ph.*

Bonedd. *Origo bona. vi. Injuriae,
Liberalitas.*

Blodeu cyn Afaleu fydd. *H. D.*
A dyfo o *Bendefig*,
A dyf o'i wraidd, hyd ei frig. *D. N.*
Cnau o'i Ryw, gnwd ar ei ol,
Gwres yn hir, gwr synhwyrol. *T. A.*
Byw'n Dduwiol, lle bo'n ddiau,
A bair i hil gwr barhau. *W. Ll.*
Derwen teg y Cadeiria,
A gaffo'i dwyn, o Gyff da. *H. C. Ll.*
Y Pren fyth, pur yn ei fon,
A bair Afaleu'n berion.
A'r Gwr Da, a'r gair-duwiol,
A eiria'i Imp, ar ei ol. *W. Ll.*
Y Tir da, heb nâttur du,
Wna i wenith, ennynu.
Gwr dî fai, o Grad i fedd,
A yrr twf ar ei 'tifedd.
Coed Dolydd, fo'n cyd deiliaw,
A ffynna 'mhlith, Gwlith a Gwlaw.
Yr Hydd, a gynnydd ei Gyrn,
Y Gwaed da a fag Teyrn.

Bonedd

Bonedd, mal Ftifedd maeth.
A fag, y Bendefigaeth. *D. N.*
Yspys y dengys y Dyn,
O ba radd, y bo'i wreiddyn.
Y ffrwyth achos ffrith uchel,
Da ceidw dast, y coed y del. *T. A.*
Damwain cael Mab diymwad,
A wnel dim, yn ol ei Dad. *L. G.*
Odid Gwr, oeded gariad,
O Fil, a dynn fal ei Dad. *D. H. H.*

Pethau bychain. Parva,

Ni bu fawr, Duw gwawr a'i gwyl;
Paham? Cynfam y cynfyl, *R. G. Er*
Y Llenad, pan fo lleiaf,
Ai llai y rhed, na Lloer Haf? *Ior. F.*

Nid Ty heb Wr, *Paterfamilias.*

Gwael fydd y Bwrdd a'r Gwely,
A Bort tâl, heb wr y Ty. *H. C.*

Eioddef. Patientia.

Er godde'r Awr y gweddai,
A: oddef fyth, yr oedd *fai.* *T. A.*
' Da uioddef. diwad addas,
' Dyna wedd, *daioni i Was.* *S. R.*

Gwlad. *Patria.*

Dihareb a oedd derwyn,
A ddwaid wrth 'Dduw, a Dyn;
Cablath Fro dda. i'm *gwydd i.*
Ath Randir, a thro yudi. *L. G.*

I lo Maccor yr A leryn,
 Yno trig, Natur yw hyn. D. I. D.
 Tra glwys yw natur Gleisiad,
 Garu'r Uwr Goror ei Dad.
 Y llwyn y mager y Llew,
Ei dilyd, hyd ei Olew. *W. Ll.*
 Chwannog Mab, pan gychwynno,
 Adwyth a fydd, i'w daith fo ;
 A dau chwannocach o'i daith,
 I Faclor adref *eilwaith*. R. G. Gl.
 I'o bellaf, gwaethaf yw'r gwerth. G. Gl.

Bechod. Peccatum. vitium.

Odid œel yn ddiadwyth,
 Na dyn na phren, yn dwyn firwyth. G. Ll.
 Llawn bai u oll yw'n Bywyd ;
 Llawn bai yw pob lle'n Byd. S. T.
 Ceisied Cedyrn, feddgyrn faeth,
 A *gweiniaid*, feddyginiaeth.
 Ni bu, ac ni ddychon bod,
 Neb iach, heb arno Bechod. H. D.
 Nid Baich, onid o Bechod. *Iolo.*
 Nid Baich, ond Baich o Bechod.
 Yn y Farn, gwae Ddyn o'i fod. D. M. T.
 Araf yr air i Orallt,
 A Baich, yngwrthwyneb Allt. D. N.
 Y Dyn yn fy llygad i.
 A wyl Oenyn Yleni ;
 Ac ni wyl y gwan eulun,
 Hwrdd yn ei lygad ei hun.
 Ni wyr y llaw lawn o wyn,
 Ba wich llaw wag heb achwyn. G. Gl.

Pell

Pell y gwyl eangyl angall,
 Eirchiad yn llygad y llall. L. Gut.
 Dyfod, cyd bych diofal,
 A wna dy dwyll yn dy Dâl. R. Ddu.
 Ni ddwg Mab, arab aren,
 Baich y Tad, o Bechod hen.
 Ni liwir, yngoleuad,
 I neb, odineb ei Dad. Iolo.
 Tridyn nid ant ar redeg,
 I fynydd Duw, fan oedd deg:
 Y Celwyddog, serthgrog swydd,
 A gai olud o gelwydd;
 A Gwr a ddirmygo wan,
 A Gwr a logo arian. S. T.
 Y march a wyl o'i warchae
 Y ceirch, ac ni wyl y cae D. G.
 Edrych, pan welych y nos,
 A chau'r annedd ddechreunos,
 N'ad un drws, a nodwn draw,
 Heb ar unwaith ei breniaw.
 Dros bryd na ad drws heb bren,
 Dros brenio'r drws â brwynen
 Ail meddwl, am a wyddost,
 Na thyner Piler o'r Post.
 Na ddos di, achos dichell,
 I Dafarn gau, dewfurn gell.
 Ef a'th dwyllir *Feinir faw*,
 Od *ai'i furn* o Dafarnau.
 I Dai drwg, onid ai draw,
 Odid allael, dy dwyllaw. G. I. Ll. F.
Gorhaeidd. *Prodigalitas.*
 Nid gwell rhyhael, *di fael fydd*,
 Yn rhoi gwbl, na rhy Gybydd. D. Ed.

Tegtoek. Pulchrum.

O fair, llawer teg a fudd,
 O ddyn yn ddrwg ei ddeunydd.
 Hoff gan bob edn affednais,
 Ym medwgled, lwysed ei Lais. G. Gr.

Phylludd, Prudentia.

Gwell Pwyll y mae'n gall y Pen,
 Nag aur bennaig o Urien. L. G.

Mynd i Adwedd. Recidiva.

Na thrown a'r Aradr adref;
 A dro'n ol, nid a i'r Nef. S. T.

**Pob peth yn ei gylch. Rerum
vicissitudo.**

Pob cadarn pawb a'i codai,
 Ac yn yr awr, gwan yr ai
 Codi rhai y cad y rhod,
 A'i gostwng, o frig ystod. *Edm. P.*
 Ni bu ddryghin heb hinon,
 Na thrai blaen llai, heb lanw llon *I. H. G.*
 Mae llun y rhod, i'm llaw'n rhol,
 A drych Wyneb, drwy chanol.
 Gwiliwch y Droell, amgylch draw,
 Gwir pedwar gair heb peidiaw,
 Heddwch, Pybyrrwch, y Byd,
 Cyfoeth a fâg ef hefyd,
 Cyfoeth balch, caf waith y bel
 A fo cryf, a fâg rhyfel:
 Rhyfel a fâg rhyw afar,
 Tlodi byth, at lid a bâr:

Tyloidi

Tylodi trueni trwch,
 A fo coedd, a fâg heddwch.
 Mae'r geirieu hyn, ym mrig rho-l,
 Be caid neb, i'w cydnabod.
 Codiad Dyn, nis ceidw tani,
 A chwyp sydd, o'i chwmpas hi.
 Heddychu, heddyw uchod,
 A wna parhau'n nhop y Rhod. T. A.
 Ni wnaeth drwg, a'i diwygiodd. N.
 Am ei *Bridwerth*, ni pherthyn,
 Ymliw a Duw, mal a Dyn.
 Rhaid fydd, lle rho Duw ei far,
 Dwyn Eginyn, da'n gynnar. T. A.

Pr Eiddwodiad. Resurrectio. vi.
Mors.

Yr un cnawd, Ddydd-brawd a ddaw,
 Yn duded Enaid iddaw.
 Clyd i'r corph, clydwr o caid,
 O Phrynodd, ffawr i'w enaid. G. Gl.

Gair i Gall. Verbum Sapienti.

Deuair yw un-gair i Gall. Ior. F.
 Llygaid a ddywaid i ddeeth.
 Synwyr, lle nis cais annoeth. G. O.
 ' Lle doi angall, a dengair,
 ' *Llunir* i gall, hanner gair.

Scrwmgaïs. Altum Supere.

Na chais, a *difantais* fych,
 Y rhoddiad, nis cyrhaedlych. G. O.
 Na chyraedd, mewn awch arian,
 Mae'n waith swysg, mwy na'th ran. S. R.

Gwybod. Scienta.

Nid hael, hael ar fedr cael oêd ;
 Nid call, Call wedi colled ;
 Nid dim, dim diddim od aeth ;
 Nid Byd, Byd heb wybodaeth. *W. Ll.*

Henaint. Senectus.

Henaint, o ddeiliaint ddylyn,
 A ddaw heb wybod i Ddyn. *R. R. G.*

Uwadredd. Sermo.

Wrth sutt eu haraith, a'u son,
 Yr adwaenir, y Dynion. *I. B.*

Gwetsion. Servi.

Diwydiach, fal y dwedynt,
 Fydd Gwas, gwaedi faeddu gynt. *O. Ll.*

**Pob cyffelyb Dwgais. Similis
similem sibi Quætit.**

Pob modd a luniodd Dnw lwyd,
 Pbb glan i lan a luniwyd. *G. I. Ll. F.*
 Ifangc, Ifangc a ofyn ;
 Henaint, at henaint y tyn. *S. Ph.*

Breudbwyd. Somnium.

Breuddwyd wir ebrwydd y daw. *L. G.*

Dutyd. Stulto ne Respondeas.

Ymliw, nid doeth, mal nôd haint,
 A chroesan, rhag echrysaint. *Ll Gut.*
 Balchder

Balehder. Superbia.

Goddef dy is, dewis dâl;
 Gwawd di gost, gad dy gystal. Gr. D.
 Y balchaf trawsaf trasyth,
 Lleia'i barch, ym mhob lle byth. B. C.
 A fo'n falch, o'i fewn o'i fodd,
 A fo ffol, ef a faeliodd. D. Ed.

Ugh. Suspicio. vi. Mendacium.

Os o brudd, mae'm cyhuddaw,
 E dyb drwg, a fo drwg draw. B. Br.
 ' Fo wr drwg, a'i fryd ar wall,
 ' Ef a daera, fod arall.

Ughol. Taciturnitas.

Da Daint rhag Tafod, daw Dydd,
 Ynghilfach safn anghelfydd. Iolo.
 O bai air, heb ei warrant,
 Goreu dim, ei gau a'r Dant. I. Denl.
 A dawo, a wrandewir;
 O dewi gwers, y daw gwir.
 Nid a siarad, sy wrol. T. A.
 Da yw oedi, dywedud,
 Da iawn mal y Dewin mud.
 O ddwedyd, anddiwydair,
 Rhyw ddrwg neu gilwg a gair,
 O dewi moddeu diwg,
 Odid oedd gael, drafael drwg, L. Gl.
 Meddyliaid ei raid lle'r êl,
 A thewi a wnaeth Hywel.
 Ac ar y Doeth, goreu dim.
 Meddyliaid, meddai Wilim.
 Deallwr, a dau well-well,
 Distaw, a Mul, 'does dim well. H. C. L.

Blasus fydd parabl isel,
 A da a Doeth, weli dêl. L. G.
 Y Llwynu *dyfnaf* o'r *afon*
Isaf fis *Haf*, yw ei sôn.
 Y Doeth, ni ddywaid a wyr;
 Nid o sôn y daw synwyr.
 A fo Doeth, efe a dau;
 Annoeth ni reol Enau. G. I. H.
 Mab ni char, gormodd siarad,
 Mâl yw a Doeth, mal ei Dad.
 O'r meibion, Gwyr doethion gynt,
 Y mûlaf a ganmolant.
 Ni ddichon mewn heddychan,
 Na bo doeth, y neb a dau.
 Os pwyll Canwyll rhag Cynnen,
 Goreu Canwyll, yw pwyll Pen. H. C. Ll.

Llygredd y Byd. *Temporum In- juria, & Morum Corruptio.*

Wrth ddau beth, yr aeth y Byd,
 Wrth ofn, ac ar werth hefyd,
 ' Oerder yn ein hamser ni,
 ' Yr Ia glas, yw'r Eglwysi. S. Br.
 Swyddeu Gwlad, sy heddyw gloff;
 Swyddeu Eglwys, sydd ogloff.
 ' Y Pâb, fal am yr aberth,
 ' Ammeu'r gwir, y mæ er gwerth.
 A phob Cyfraith, *effeithiawl*.
 A llw Dyn, aeth yu llaw Diawl.
 Ni chair dwr rhôm a chaer Dÿf,
Eisieu Arian i Siryf.
 ' Tydi r gwan, taw di a'r gwir,
 ' Arian da a wrandewir. Nobl

Nobl, o bai yn abl o bwys,
 A wna'r Cam, yn wir cymmwys,
 Y gair geuog, ar gywir,
 Ac arian a'i gyrr yn wir,
 Er daied, fo'r gair diwerth,
 Ni bydd gwir, heb addaw gwerth.
 Y cywir, a *gaiſſ hirwg*.
 A'r Lloïr a droir, o'r lle drwg,
 F'aeth anwir, ar faeth ennyd ;
 F'aeth y gwir, ar feth i gyd.
 Blaidd ac Oen, ble'dd â Gwannwr,
 Hwyt hwy ddau, aengynt i ddwr,
 Oen a lās, yn ol *ei wir*,
 Am i'r Oen, anmeu'r anwir. *Ior F.*
 ' Adrodd y *gwir*, drwy Dduw gaf,
 ' Ar y Byd, ni arbedaf.
 ' Ar y gwir, mac rhagoriaeth :
 ' O'm lleddir am wir ba waeth,
 ' Aml iawn y cair llygrair llwyth,
 ' Anudon a wna adwyth.
 ' I *faeddu* Duw, fe ddaw dyn,
 ' Ffres gwedi *ffrisio*'i Gydyn
 ' Aml dyngu, mal y dengys,
 ' I waed a chig, Duw a'i chwys :
 ' Pan ofer Dynger rhwng Dau,
 ' Ba Lw, heb ei Welian,
 ' *Afrad* ar Ddillad a ddaeth,
 ' *Afraid iawn*, o fradyniaeth.
 ' Pais Gwr happus â gairian,
 ' Pais a lwngc. naw Pwys o Wlan,
 ' Codi rhwff, cyd a Rheffyn.
 ' Castell am Dagell y Dyn.
 ' Cwrlo Gwallt merch, Carl a'i gwyr,
 ' Colles hon y Call synwyr. Gw^ol:-

- ' Gwelir o'r clust i *gilydd*,
- ' Gwallt gossod, yn fargod fydd.
- ' Balchder y sy'n gadwyn gaeth,
- ' A fwrw fil, i farwolaeth.
- ' Byd sydd. ni adnebydd neb.
- ' Ba ddyn, sy heb ddau wyneb.
- ' Oeri cariad, yw'r cerydd ;
- ' Trassau yn ymgassau sydd ;
- ' Byw ac aros, heb gariad,
- ' A bair twyll. y Mab i'r Tad.
- ' Bardd awen bŵr, a ddeall,
- ' Bradwr llwyr yw'r Brawd i'r llall.
- ' Gan fyd gwenwynllyd, gwae ni,
- ' Ac adwyth, yn ymgodi.
- ' Cydgoeliwn, *gyda'i gilydd*,
- ' Cydwybod, ddarfod ei ddydd.
- ' Caewyd ar *Wirion* cywir.
- ' Cadarn a fyn, darn o'i *Dir*,
- ' Y Trahausaf, o'r Trawsion,
- ' Oreu sydd, yn yr oes hon.
- ' Ar wr mawr, bob awr o bydd,
- ' A'i Law'n cael, ni lŷn C'wilydd.
- ' O *chaisffo*, dan Bolio Byd,
- ' Ei Dy'n wych, dyna Iechyd,
- ' A gadu, heb helpu hon,
- ' Eglwys Duw'n gleisieu duon.
- ' A'r Fonwent oreu fynnoch,
- ' Anferth y mae'n Fuarth Moch.
- ' Rhai'n eu Ffwir, o'n *Hoffeiriaid*,
- ' Rhawn gynt, am y rhai'n a *gaid*.
- ' Un Duw'n Tad, a'n Da, a'n Tir,
- ' A'r Bwydydd, ni arbedir.
- ' A bychan lle hir bechwyd,
- ' Ac i un Bol, Ugain Bwyd.

- ‘ Ac ni chlywir, gwir yw'r gân,
 ‘ Un a'i Gylla'n wâg allan,
 ‘ Du oer o beth, ydyw'r Byd,
 ‘ Yn flinder, yn aflendyd.
 ‘ Balchder a browyster brâd ;
 ‘ Balch chwydd, Anlladrwydd, Lledrad.
 ‘ Codes, nid cynnes Cenol,
 ‘ Cenfigen, gwae Pherchen ffôl,
 ‘ Chwimllyd yw'r Byd ar ei ben,
 ‘ Chwerw a Sûr, a chrâs aren.
 ‘ Arfer o drawsder, sy drwch :
 ‘ Wedi Trawsder, daw tristwch.
 ‘ Nid oes le ffo, pan fo'r farn,
 ‘ I'r Hoccedwr, a'r Cadarn.
 ‘ Y sy ddrwg, a'i swydd a'r waith,
 ‘ Ofned uffern, fan diffaith.
 ‘ Braw ydyw, obry redeg ;
 ‘ Fry od awn, mae'n Fro deg.
 ‘ Duw o Gôf aeth, dig yw fo.
 ‘ Duw a'i nerth, rhaid i'n wrtho,
 ‘ Ymogelwn. ei Gilwg ;
 ‘ Ymrown i droi, mawr yw'n drwg.
 Ieuan Tew o Gydweli.

Cystydd Galon. Tristitiam cordis Vultus non celat.

Y Claf fai'n celu ofid,
 Ef ai ei Rûdd, heb fawr wrid. B. B.
 Ni chel, mi mynych wiliais,
 Fy 'ngrudd a fo, yngwraidd Fais. T. A.
 Y Grûdd, y sy'n cyhuddaw,
 Y Galon drist, o'r Glyn draw. I. Dyfi,
 Ystyddiau

Ystyddiau, bum gystyddiwr,
Ni chel y Grudd, gystudd Gwr. *H. D.*
Ni allai'r Grudd, fy lloer gron,
Gelu cystydd y Galon. H. D.

Tristhok. *Tristitia gravis est.*

Eithr calon oer, nid oer dim.
Och o'r hwyl, falawch rhewloer.
Och, ni bu och, na bai oer. *Gr. Gwef.*

Llyfrder. *Vecordia.*

Y Llyfraf gwaccaf a'r gil,
Ei frig a friw, a'i Wegil,
A'r Dewraf oll, i gadw'r iawn,
Yn ei wyneb, yn uniawn. *L. G.*

Gleddyf gair Duw, *Verbum*
Dei Gladius.

Drwg y gall, Draig yw y Gwr
Dyrnau moelion, *drin Milwr.*
Gloywddwys bryd, gledd ysprydawl,
Gair Duw yw'r Arf, a darf Diawl. *S. T.*

Gwironedd. *Veritas. vi. Men-*
dacium.

Goreu ar bob hardd, *geirwir,*
O Wr wrth gerdd, draethu'r gwir.
Ni yrrir y gwir o'i garn ;
Nid â'n Us, dan ei Wassarn. *L. M.*
Anghuol, ac anghywir,
A Chnaf wyf, o chanaf wir. *Ior. F.*
Ni âd y Gwin, cedi Gwir. *R. Tej.*

na phrya hen beth, *Vetus'a*
non emenda.

A bryno hen fargen faith.

Obry'n ôl, a bryn eilwaith, *D. Ed.*

Lle. Vir locum ornat.

Dyn a all mewna deunawlle.

Ar ddwr a llawr, urddo'r lle;

Ac nid hawdd, gan y Tyddyn,

A'r ddaiar dew urddo'r dyn *I. Deul.*

Rhinwedd. Virtus.

Ofer yw brig, fry ar bren,

Heb rinwedd, mwy na brwynen.

Cynnyrch twysen, yw splennydd:

Ac yn y Gwlaw, e gwyn Gwlydd.

Eisicu 'gino, Iâs gynnes.

Y gwywant hwy, gan y Tes.

O. G.

Dr Ein Deen. Unum Sectari.

Hyddgi da, hawdd ei gadw ef

A ddyllud yr un ddolef.

Yu y Gainge, ni wyr y gôg,

Ond un llais, Eln lluosog. *H. D.*

D I W E D D.

Authorum nomina & quando
Avererint.

B.	
B.	<i>Aer. Bedo Aeddrem.</i> 1500.
	<i>B. Br. Bedo Brwynllys.</i> 1460.
	<i>Br. F. Brawd Fadawg ap Gwallter.</i> 1250.
D.	
<i>D. Ed. Dafydd ap Edmunt.</i> 1450	
<i>D. I. D. Deio ab Ieuan Du.</i> 1480.	
<i>D. N. Dafydd Nanmor.</i> 1460.	
<i>D. G. Dafydd ab Gwilim.</i> 1400.	
<i>D. Ll. Dafydd Llwyd ab Lln ab Gr.</i> 1480.	
<i>D. H. H. Dafydd ab Hywel ab Hywel.</i> 1480.	
<i>D. M. T. Dafydd ap Maredudd ap Tudur</i> 1400.	
E	
<i>Edm P. Edmunt Prys, Archdiacon</i>	
<i>M i ionydd.</i> 1623.	
G	
<i>G. Ll. Gruffydd Llwyd ap Dafydd, ap</i>	
<i>Eingion.</i> 1400,	
<i>G Gr Gruffydd Gryg</i> 1400.	
<i>Gr. I. Ll. F Gruffydd ap Ieuan, ap</i>	
<i>Llywelyn Fychan</i> 1500.	
<i>G H Gruffydd Hiraethog</i> 1530.	
<i>G Gl Gulto'r Glyn</i> 1450.	
<i>Gr Gwef Gruffydd ap Gweflyn</i> 1400.	
<i>G O Guttyn Owein</i> 1480.	
<i>G D. Ych Gruffydd ap Daf. Ychan</i> 1460.	
<i>G I H Gruffydd ab Ieuan Hen</i> 1460.	
H	
<i>H D Hywel Dafydd ap Ieuan Rhys</i> 1490.	
<i>H Ar Huw Arwystl</i> 1550.	

& *Quando floruerint.* (43)

H C Ll Huw Cae Llwyd 1180.
H Cil Hywel Cilun 1480.

I

Ieuan Brydydd hir 1450.
Iolo Goch 1400.
Ior F Iorwerth Fynglwyd 1460.
I Deul Ieuan Deulwyn 1460.
I R ab Ll q.
I H S Ieuan ab Hywel Surdwal 1460.
I B Ieuan Brechfa 1500.
I D Ieuan Dyfi 1490.
Ieuan Tew 1580,

J

J Mon, Lewys Mon 1500.
L G Lewys. alias Lln Glyn Cothi 1450.
L Mor Lewys Morganwg 1520.

Ll

Llo Llowdden 1450.
Ll G Lln Goch, ap Meuryg hen 1400,
Ll Gutt. Llywelyn ap Guttyn 1480.

M

M R Meredudd ap Rhys 1440.

N

Anonymus.

O

O N q.
O G Owain Gwynedd 1560,

R

Raff R Raff ap Robert 1530
R Ll R R Rys Llwyd, ap Rys ap Riccart 1460.
R G Er Rys Goch o Eryri 1420.
R G Gl Rys Goch Glyndyfrdwy q.
R Dd Robin Ddu 1460,

<i>R R G</i>	<i>q</i>	
<i>R C Rys Cain</i>		1580.
<i>R Teg Rys Tegawny</i>		1480,
	<i>S</i>	
<i>S C Sion Cent</i>	<i>q.</i>	
<i>S F Simont Fychan</i>		1570.
<i>S C Sion Ceri</i>		1520.
<i>S Br Sion Brwynog</i>		1550.
<i>S Ph Sion P'hylip</i>		1580.
<i>S T Sion Tudur</i>		1580.
	<i>T</i>	
<i>T P Tomos Prys</i>		1580.
<i>T A Tudur Aled</i>		1500.
	<i>W</i>	
<i>W Ll William Llyn</i>		1560.

Cywydd o Folawd i'r Iesu.

BUM yn darllen gryn ennvd,
 Bereiddwaith beirdd heirdd o hyd ;
 Na bu i gael neb o'n gwell,
 Am roi gwawd, ym Mro Gadell,
 Annel Clau, rhai'n eillie Clod,
 I frenhinoedd, farn hynod.
 Rhai'n breladeidd weddeidd wiw,
 I eglwys-wyr aeg lwys-wiw.
 Ar hoff wawd, cai Brophwydi,
 Arbennig fawredig fri.
 Rhai'n gwario, er gwyro gwyr.
 Rhyw gaingo aur, ar Goncwerwyr.
 Cai wyr haelion, ffrwythlon ffawd,
 Can miloedd, eu Canmolawd.

Goreu-gwyr, i'w gwyr ragod,
 O gaer a glynn, a gai'r gleol.
 Dyfalu yn gu heb gel;
 Dwyn acheu, a dawn uchel.
 Ieuan Rhydderch, loywserch lon,
 Lawn araith, o Lynn Aeron;
 Ab Ieuan Llwyd, baun y llu,
 A assiei, i fam Iesu;
 Gerdd brydferth, yn ddiserthwob:
 Ir mal Cwyr, a mel o'r Cwch.
 Mae'r bryd man, diau o daw,
 Manolwawd i'm mewn eiliau.
 I brydferthaf, Croyw-Naf Cred.
 Roi *fy* mawl, er *fy* muled,
 Iesu yw *nghof*. wir ddofydd;
 Iesu *fu*, a Iesu *fydd*,
 Eurbor, *Nefol freiniol fraint*,
 Wych o'r llys, uwch yr holisaint.
 Addwyn *Frenin i'w addef*,
 Ynglynn aur Angylion Nef.
 Brenin Cred, Ri diledryw;
 Brenin i bob Brenin byw.
 Yn d'wysogawl di segur,
 Uweh law pawb, y jach-lew pŵr.
Offeiriad mewn graddiad grou,
 Burach nag y bu Aaron.
 Ein pŵr hyf, a hwy'n parhau,
 Nag Aaron, yn ei gaerau.
 Prophwyd yw ef, (*Nef i ni*)
 Pur loyw-lain, *pair oleuni*.
 Murain Cynnyrch llewyrch llên.
 Mewn mwys-air, mwy na Moesen,
 Yn dyst Cywir, *geirwir gwar*,
 A dewin, holl lu daer.

Uwch pob rhai, rhyglyddai glod ;
 Y mae'n erfai, myn orfod ;
 A rhagorieith, berffeith bur,
 O ran nerth, ar un Arthur,
 Sigodd siol, *diabol dig*.
 Fall uffernol, fwell ffyrnig.
 Er iddo, yrfa Adda
 I fywyd drwg, e fyd da.
 Ac *Efe*, yn y gofid,
 A bâr llawn, i *beri lliid*.
 A'u holl *lin*, ond blin fu'r bla,
 I gaethfyd, ar un gwthfa.
 Llesg oeddym, ein llas gwyddiad,
 Yma heb rym, y Mab rhad.
 Trwy *rinwedd*, ei groywedd grôg,
 Gorddofodd, y gwrrd ddyfiog,
 Wrth farw ar hon, galon glau,
 Lluddiodd ing, lladdodd Angau.
 A'i *gyfodiad*, gwiw fadwedd,
 Uchaf Ior, o rych *ei fedd* ;
 A *wiria'n* glau, er iawn glod,
 Dduw erfai, iddo orfod.
 Ifor hawl a sawrhawyd,
 Am haeledd, *o'i fedd a'i fwyd*.
 Haelder, Ior a glodforwn,
 Oedd achos pêr haelder hwn.
 Hael yw Iesu, haul oesoedd ;
 Hy-lan yw, a hael *iawn* oedd.
 Haelionus, am rymus rodd ;
 Hy-burddewr, am ebrwyddrodd.
 Hael hael hael, tros fyd ydyw ;
 Hael a da rodd, haelder yw.
 Ys da Duw Tad, Ceidwad Cu,
 Di os, mai da yw Iesu.

Pen

Pen teyrn, y teyrnedd,
 A gad o'u rhyw, i gadw'r hedd.
 Pen Escobion, ddyfnion ddyag;
 Pur gywirddawn, pŵr gwirddysg.
 Pen Prophwyd mawr, roddfawr Ri;
 Praff awdwr, y prophwydi.
 Pen ar gedyrn, trachwyrn trin;
 Paun gwrol, pen eu gwerin,
 Goruwch haelion, gwyr chwalu,
 Ei rad llawn, i reidien llu.
 Ei wehelyth fyth y fydd,
 Eureidd *dwf*, o Wraidd *Dafydd*,
 Ac Abraham ddinam dda,
 Wr addwyn, o ryw Adda.
 Ei gorph Ion, gorhoff per,
 A'i lan enaid oleu-ner;
 Ynt trwy weddua, ferthus fawl,
 Oreu dawn, o ryw dynawl.
 Am ei berson, Cysionfad.
 Mab yw i Dduw, byw heb wad.
 Pe gallwn, mad geidwad cu,
 Iddo fawl, a'i ddyfalu;
 Yn *Ufyddaf*, a'm tafawd,
 I'r Iesu yr assiwa wawd.
 Gan nas gallaf, buraf Bŵr,
 Glymmu irwawd, glaim eurior;
 Gorthewi, a *wnaf fi fel*,
 Gwir adyn, a goradel;
 Mawl yr Ion, mal yr oedd,
 I bregethwyr, brig leithoedd.
 Iesu'n gwynfyd da ydyw;
 Iesu'n rhan, sy un o'n rhyw.

• *Iaco ab Dewi*, 1710.

† Gwel Atodiad.

Cywydd ar Ddiodebsiadu Crist.

ERGLYW fy nghân o Arglwydd,
 A phoed lân, a chaffed lwydd.
 Hoffwn dymunwn bob dydd,
 Ganu'n iawn, it gân newydd
 A hon am dy dirion hedd,
 Drwy gariad, a'th drugaredd.
 A'th ddaioni, i'th Ddinas;
 A'th rodd rwydd fodd, a'th rydd ras.
 O'ruaidd iawn, te'n oarodd Iôn,
 Lin wael, pan o'em elynion:
 A rhoddi drossom ni draw,
 Y bywyd gwyn heb beidiaw.
 Colli er mwyn ein gwella,
 Ei briod waed, newn pryd-da:
 Amrith fodd, amryw *weithiau*;
 Glan wych rodd, er ein glan-hau.
 Brodyr byddwn, ni barod,
 'Odde' gloes dros Dduw a'i glod.
 Poen a ddŷgodd, pan aned;
 O draul aeth, ei waed ar led.
 Ail enir, ni'n olynol,
 Bob rhai'n lân, bawb ar ei ol.
 E waedodd, pan Enwaedwyd,
 I'n rhydd-hau ni o'n rhwyd.
 Ninneu'n calonneu celyd,
 Gwnawn yn bur, mae'n llawn o bryd.
 Pân chwyssodd, gwaedodd gawad;
 O fraw'n yr ardd, cyn ei frâd.
 Chwysswn ninneu'n hafiechyd,
 A'n gwŷn ddrwg, yn ddragreu gyd.
 E gurwyd, oernodiwyd Crist,
 Yn orthrwm, yn rhy athrist. Ystyriwn

Ystyriwn ninneu'n wastad,
 Roddi dwrn, i'r Adda dad!
 C'ronwyd, drain-bigwyd ei ben,
 A chroes d'rawyd a chorsen.
 Trwy fyd, nag ofnon tra fo'm,
 Y drysswch, fe aeth drossom.
 Chwippiwyd, ammharchwyd ym mhell;
 A'i fin watwor, o'i fantell.
 Bwriwn ni bob rhyw ennyd,
 Yn barch i'n, bob ammarch byd.
 Egr fu ei boen ar y groes;
 Dynion yn dwyn ei einioes.
 Bo ni barod, farw beunnudd,
 Os rhaid heb ffael, ym mhlaidd ffydd.
 E gas frath, go is ei fron,
 A gwelwyd gwaed ei galon.
 Am hyn iddo, bob munud,
 Canwn fawl, na fyddwn fud.
 Ei gorph, 'nol gorphen ei waith,
 A gladdwyd mewn craig eilwaih.
 Bechadur, marwha bechod;
 O fodd deg, yn ei fedd dôd.
 Cyfododd ef, cof ydyw,
 O'i fawr fedd, o farw i fyu.
 A thithau heb naccau côd,
 Bechadur o gwsg pechod.
 Fr ein mwyn, yn yr un modd,
 Y Iesu gwyn esgynnodd.
 Esgynnawn, byddwn yn bod,
 Byth sych, am bethen s'uohod.
 Eisteddodd, caiff yn oestad,
 Y brait hyn, ger bron y Tad.
 Dadleu mae, diammeu dôn,
 Drwy ei swydd, dros ei ddynion.

Gwar

Gwarantaf, cawn ein gwrando,
 Gwnawn ein cwyn, er ei *fygn fo*.
 Ac fe'n dug, i'w deg fynydd,
 Bawb od awn i'w ol bob dydd,
 Yn awr ddyrn, pwy na reddai,
 Ddwbl glod byth, i Dduw heb lai.
 Rho bardwn, er ei aberth:
 A gwael Dduw, it gael ein gwerth.
 Er ei haelder, rho *eilwaith*,
 Deg rad, i'n redeg y daith.
 Duw ein pen, (fu'n dwyn penyd),
 Derbyn ni, wrth fynd o'r byd,
 I drugaredd dragwyddol;
 Amen F'ion, amen yn f'ol. *b D. L.*

Englynion i'r rhai ahhannog i gablyn.

LLE bo bai'n syrthio na ymsertha, *ddim*
 O ddamwain nis galla';
 Angall ni wyr deall da,
 A fo gall, ef a'i gwella.

Yr annoeth goegwr na thawo,—cabiwr,
 A'r cwbl o'r rhyw honno.
 Welan y bai, le ni bo,
 A'r lle bydd, f'a'r leirll heibio,

Y fron weddol na farno,—nes deall,
 Sydd gall yn fy moddio,
 A farn air, heb fai arno,
 Ffolaidd anfwynaidd yw fo. *D. L.*

• Gwel Atodiad.

Wrth ymhoed a Chlaf.

Duw Iôn Duw dirion Duw dorro—dy boen
 Duw beunydd a'th Helpio,
 A Duw gwyn uwch bryn a bro,
 A'th glafychai'th *ddiglywyfo*,

Iesu a'i allu yn holl-iach,—a'th ddeil,
 Mi'th welaf yn afiach,
 Iesu gwyn, a oes gwannach?
 Iesu wnel ei wâs yn iach.

Wrth fyned i gysgu, a chodi.

Cofia'r Ion cyfion Dduw ou,—o'th *sonnes*,
 Wrth fyned i gysgu,
 A Duw *fydd*, ben llywydd llu,
 I'th *wilio*'r nos i'th wely.

Cofia Grist *ddidrist* Dduw tri,—y bore,
 Yn barod wrth godi,
 Dod ddiolch, dywaid weddi,
 Ni ddaw drwg yn d'olwg di.

D I W E D D.

Ulyse Parbdoniaeth.

L L Y F R

BARD DONIAETH

O waith y Capten William Midleton,
cymmwys iw ossod yma.

B Ardoniaeth yw Celfyddyd, o ganu Cerdd
Dafod yn dda. *Sef* yw hynny plethu ac
eiliaw Caniadeu Cymreig yn Gerddgar
Bencerddieidd. Pedwar peth a berthyn at
Gerdd *Dafod*; Cymhariad, Odl, Cynghanedd, a
Mesur.

Cymhariad yw cymharu pob braich o'r Pennill,
i gyd ateb a'r gyntaf; a hynny a ellir o ddau
fodd: *sef*, Cymhariad Ddisgyblaidd, a chymhariad
Bencerddiaidd. Dwy ryw gymhariad Ddisgybl-
aidd y sydd: *sef*, cymhariad Llythyrenol, a
chymhariad synhwyrol. Cymhariad Llythyr-
ennol yw cymharu y llythyren wreiddiol, ag un
o'i rhyw yn gysseffu pob braich trwy'r pennill,
fal hyn;

Pwy sy ddewrgwbl, pais ddurgorph:

Pwy a rwym Camp, o rym Corph. G. H.

Cymhariad synhwyrol yw; pan fyddo'r Fraich
gyntaf heb gyflawn synwyr ynddi; eithr gorfod
ei chyrchu at yr ail, i gyflawni'r synwyr, heb
gymharu'r llythyrenau gwreiddiol, fal hyn;

Bhaid fydd lle rho Duw ei far,

Dwyn eginyn, da'n gynnar, T. A.

Cymhariad Bencerddieidd yw, pan fyddo rhyw
orchest ar y gymhariad, mwy nag ar y ddwy
uchod,

nchod : a hynny a ellir o dair ffordd, *Sef*, Cymhariat Lythyrenol Synhwyrol, Cymhariat Cyng-haneddol Lythyrenol, a Chymhariat Gyfochr. Cymhariat Lythyrenol Synhwyrol yw, pan fyddo'r llythyrenneu gwreiddiol yn oyd-ateb, ac yn cymharu o'r un rhyw ; ac yn cyflawni'r synwyr ddefflygiol yn y fraich gyntaf hefyd : *Sef* y ddwy gymhariat lldiagyblaidd yn un, *fal hyn* ;

Ni bu Rods, Nai Beredur.

Negydd o'i win, na, o'i ddur G. G.

Cymhariat Gynghaneddol Lythyrenol yw, pan fyddo'r hanner cyntaf i'r Fraich, yn ateb mewn croesgynghanedd, i'r hanner olaf o bob Braich trwy'r l'enuill, *fal hyn*.

Wyd Awdur diwyd ydyn,

Ion didwyll hyny duedwn,

Nid odiaeth un od adwen,

Ond ydoedd o waed Odwin. M.

A hyn a ddeallir yn eglur, pan soniwyf am groes-gynghanedd gyfan.

Cymhariat Gyfochr yw, pan fyddo dau syll-afog eirien'n dechreu'r Mesur ; ar torri'r Cymhariat lythyrenol ar y gytsain wreiddiol rhaid iddynt gyfochri yn un-sain mewn accen dder-chafedig. *fal hyn* ;

Mannau mwyn am Win a Medd,

Tannau Miwsig ton maswedd.

Os bydd Bogail yn ateb i Gytsain, nid torr Cymhariat ydyw, *fal hyn* :

Nid cystled gweled y gwir,

Ar ei wyned a'r awir. I S.

Neu Fogail yn ateb i amryw fogail arall *fal* hyn :

Urddedig arwydd ydoedd.

Ethol Myrr o Fethlem oedd. D. E.

Ni thyrr *H* arwydd ychenaidd, na chynghanedd na Chymhariad : ac os Bogail a fydd gwreiddiol yn y fraich gyntaf, Cytsein ni thyrr gymhariad *fel* hyn ;

Awn i Bun yno beunydd,

Glas a gwyn dan glos y Gwydd. D. E.

Bellach soniwn am Odl.

Odl yw cydatteb sain, mewn syllafeu perthynas : a hynny sydd o ddau ryw ; sef, Unodli, a Phroestio. Unodli yw bod syllafeu o'r un rhyw yn cydatteb i'w gilydd ; naill ai mewn perfedd Braich, neu'n y brif Odl. Am y gyntaf, mi a'i dangosaf mewn lle cyfaddas ; sef ymmysg y Cynghaneddion. Eithr unodli yn y brif Odl yw pan fyddo syllafeu unrhyw, yn ateb i'w gilydd, ac yn unodli, trwy'r caniad neu'r Pennill : ac at y rhan hon y perthyn anian rheol y Syllafeu oll : Canys ni unodla a syllaf dalgron, onid talgron arall, a hyny o'r un hwys, o bydd y ddwy o acen dder, chafedig : Bogail a unodla a'r un fogail : Lleddf a lleddf : Diphthong a Diphthong o'r unrhyw : a'r rhai'n o'r un Bogeilieid a Ohydseinieid, *fal* hyn :

Talgron.

Mingamai hi mewn gwmon,

Morcath a'i brath dan ei bron. I. G.

Lleddf.

Ychen yn' cochion unoed,

Uwch eu Cyrn na breichieu coed. Ll.

Diphthong

Diphthong.

Mal y sydd, a maelsiddaw,

Mae ful Draig i' mafael draw. Ll.

Ni chydwedda mewn perfedd braich, yn enwedig yn yr orphwysfa, syllaf i unodli a'r brifodl : hefyd ni ddychon yr un gair fod ddwywaith ar y brifodl, (oddieithr mewn Cywydd) oni bydd fynychach, neu'n traethu ysmulhawch cariad : Odl hefyd a ddychon fod o gâdd Lythyren o'r gair a fo'n dilyn fal hyn :

Dysgais i godi gyda'r, Eheddydd.

Arhodio'r un dalar : &c. I. o Garno.

Proestio yw newid Bogeiliaid neu Ddiphthongieid, ac heb newid Cydsonieid yn y brifodl. Dau ryw broest y sydd. Proest Cyfnewidiog, a phroest Cadwynodl. Proest cyfnewidiog yw, pan newidier pob prifodl o'r mesur a'r syllafeu, o'r unrhyw, fal hyn :

O'r gwinwydd darogant,

O ganon o Ogoniant,

O ward bron dan eraid brint,

O wir gorph oedd wry gynt. I. G.

Ni chydwedda syllaf yr orphwysfa, i broestio a'r brifodl, mewn braich o bennill unodl. Proest Cadwynodl yw, pan fo'r fraich gyntaf, a'r ail, yn proestio ; &c. a phob yn ail fraich yn cydodli, fal hyn :

Myfi im Duw, hoywdduw hynt,

A ganaf, ei ogoniant :

A wnaeth i'm helas!h helynt,

A gwir ddawn ac Urdduniant. M.

Ni

Ni chydbroestia, onid syllafeu o'r unrhyw. *Di-
gon* yw hyn o son am Odl; soniwn bellaeth am
y Cynganeddion.

Cynganedd yw, eiliaw a phlethu braich o
bennill ar gerdd Dafod. Dwy ryw Gynganedd
y sydd, *Sef*, Cynganedd groes, a Chynganedd
unodl. Cynganedd groes yw, pan fo'r cytson-
ieid o flaen syllaf yr orphwysfa, yn ateb i'r rhai
ar ol. Dwy ryw gynganedd groes y sydd; *sef*,
Cynganedd draws, a chynganedd groes gyfan.

Cynganedd draws yw, pan fo un gytsain
neu fwy yn ateb i'r olaf: a'r rhai nesaf atti ar
draws y geirieu llanw, yn y perfedd. Y gytsain
gyntaf yn ateb i'r nesaf at y brifodl fal hyn:

Tad, Brodyr, Neiaint, Plant, aeth. T. A.

Dwy gytsain yn ateb i ddwy fal hyn,

Bygwith y mae'r gloyn bigau. D. G.

Tair

Gleision, fal Wybr goleusyth. D. G.

Pedair

Byrblu rhewedig berwbla. D. G.

Pump

Gwaer a fai'n brudd, rhag ofn brad. G. I.

Cynganedd groes gyfan, a blethir o'r holl gyf-
sonieid a fyddont o flaen syllaf yr Orphwysfa, yn
eyddeb: olynol a'r rhai o flaen y brifodl, drwy
gyfnewid bogeilieid fel hyn,

Par yw ei glod Por y glyn.

Dwy ryw groesgynganedd gyfan y sydd; *sef*
croes rywiog, a chroes afrywiog. Croes gyng-
anedd gyfan rywiog yw, pan fo gair yr or-
phwysfa a gair y brifodl yn unsyllafog: neu

pan fo gair yr orphwysfa yn lluaws-syllafog a gair y brifodl yn lluaws-syllafog hefyd : ac yno y gellir ei throï wyneb yngwrthwyneb, fal hyn ;

*Am hen Iarll mae hyn o iawn,
I farnu a fu arnynt. L. M.*

Croesgynganedd gyfan afrywiog yw, pan fo'r gair o flaen yr orphwysfa, yn unsyllafog, a gair y brifodl yn lluaws-syllafog : fel nas gellir ei dattroi wyneb yngwrthyneb : fal hyn,

Ym mhob ing ym mhob angen. D. N.

Mae hefyd yn rhydd wrth eiliaw croesgynganedd, adu y llythyren *N*, pan fo hi yn gyssefin, (sef yn lythyren wreiddiol, neu'r flaenaf gyt-sain o'r fraich) heb un yn ateb iddi ar ol yr orphwysfa ; ac yno y gelwir cynghanedd *N* coll y gyntaf, fal hyn,

*Ni roi dolc, ar ei wawd yn,
Ni bu'n frith, bin o'i frethyn. B. N.*

Gochelwch ym mhob croesgynganedd, rhag bod marchawglythr, heb fogail rhyngthi a'r marchawg yn syllaf yr orphwysfa ; oni bydd syllaf o'r unrhyw i'w hatteb yu y nesaf at y brifodl.

Cynghanedd unodl yw, pan fyddo'n unodli o fewn cenol y fraich. Dwy ryw gynghanedd unodl y sydd ; Unodl Lûsg, ac unodl sain.

Cynghanedd Lûsg yw, pan fo rhyw syllaf o flaen y chweched yn unodli ac yn llusgo at y ehweched, a'r brifodl yn accen ddescynnedig fal hyn ;

Goreu bugail i'r dailiaid. Ll.

Ae o gyswllt cydsonieid fel hyn ;

Nid y ci carth flew arthflock. I. G.

Ni wedd cynghanedd lusg ar y fraich olaf i'r un o'r mesuren,

Canghanedd sain unodl yw, pan fo'r *gwant* a'r rhagwant yn unodli ; a'r rhan o'r fraich ar ol y rhagwant yn cynghaneddu a'r rhagwant, drwy gydatteb cydsonieid, a chyfnewid bogeilieid ; æ nid oes mesur hyd y gwant na'r rhagwant, mwy na gorphwysfa cynghanedd lusg, *fal hyn,*

Plas, to dulas, ty deiliawg. I. T.

Ni ohydwedda yn unodl y sain, ddwy syllaf mewn accen ddêrchafedig, oni byddant un bwya. Sain ddwyblyg, *fal hyn,*

Por, dor, dar, gwanar gwinau. I. G.

Gellir hefyd a hynny'n orchestol, osod amryw gymghaneddion ar yr un fraich ; *sef* sain o gyswllt, a chroesgynghanedd ynghyd, *fal hyn ;*

I gelliwig ac iw llys. Sp. V.

Saingroes

Aeth hiraeth i wyth harri, L. M.

Seingroes o gyswllt goll y gyntaf ; neu ewinog ar air mwys, *fal hyn,*

Nan Conwy man sawn y medd. M

Sain, traws o gyswllt, a chroes ddwbl gyswllt ewinog, *fal hyn,*

Syr o'i ryw syr o'r oes hon. L. M.

A'r holl gynghaneddion ar yr un *fraich*, trwy orchestion mewn saith modd barnent yr athrawon, *fal hyn,*

Tro yn tro yma at Rys. M.

Digon bellach yw hyn o amnaid, i rybuddio'r Darlleyd atkrylithgar, i chwilio cerdd yr Athrawon Awduraidd Pencerdhawl, lle cânt weld eu gwala o siampleu gorchestawl, os oraffant ar y cynhildeb.

Bellach soniwn am y mesureu

Mesur yw rhif nodedig o syllafon, mewn braich, neu o rifedi breichieu mewn pennill. Rhif neu nifer y syllafon mewn braich, a elwir Cyhydedd. Dwy ryw gyhydedd sydd; *sef* cyhydedd mesur; (ac am hoano y *soniaf* ym mysg y mesureu) a chyhydedd braich. Saith ryw gyhydedd braich y sydd, *sef* saith Golofn cerdd Dafod; ac *tel* hyn y dosperthir hwynt; y Gyhydedd *ferr* a *fesurir* o bedwar *syllaf* mewn braich, y gyhydedd wen o bump, y gyhydedd las o chwech, y gyhydedd gaeth o saith, y gyhydedd draws o wyth, y gyhydedd drosgl o naw, a'r gyhydedd hir o ddeg *syllaf*, *sal* hyn,

Gruffydd griffwn,

O dad Owein Dwinn,

Brau wyt Wyr Robert Dwinn. . . L. M.

Praffwydd wyd Imp Ruffydd Dwinn.

Praffwaed dydd-daed, Mareddydd Dwinn,

Pwyy'n rhoi dy Aur pai Henri Dwinn,

Pwyy'n orhoff da da pai hen Ruffydd Dwinn.

Mesur *sef* pennill, yw nifer o *freichieu*, ar un neu fwy o'r Cyhydeddion, trwy gadw cymhariad, cynghanedd, Gair cych, gair toddaid, Cyfochriad, ac yr un caniad. Tri rhyw fesur sydd; Cywydd, Owdl, ac Englyn. Tri rhyw fesur Cywydd sydd; *sef*, Cywydd deuair, cywydd llosgyrnog, ac Owdl gywydd. Dau ryw gywydd deuair

deuair sydd ; *sef* cywydd deuair fyrrion a chywydd deuair hirion. Cyn dechreu dosparthu un o'r mesurau, rhaid im ossod ar lawr reolau cyfredin, a berthynant at bob un o'r mesureu : **Bellaoh** llyma'r rheoleu i gysylltu ynghyd y cymhariadeu, yr Odleu, y Cynghaneddion, a'r Mesureu :

1. Fod Cymhariad, a wsnaethâ 'mhob rai o'r mesureu.

2. Pob Odl o bydd hi'n unrhyw a'r Odl gysefin flaenor, unodl fydd a chywir ganiad drwy'r mesureu, eithr mewn Proest.

3. Ni cheir Cadwynfyr, na Gorehest y beirdd heb groes cynghanedd ym mhob braich.

4. Pob Cynghanedd a wsnaetha, ac a gynganedda yn gywir ganiad, ym mhob mesur a'all,

5 Edrychwch am orchestion y Mesureu wrth ddosparthu pob pennill ar ei ben ei hun. Pennill o Gywydd deuair fyrrion, ddylwn yn nesaf son am dano ; A hwnw a fesurir o ddwy *fraich*, o'r Gyhydedd *ferr* ; *sef* pedwar *syllafog* bob braich ; y naill a'r *brifodl* yn accen dderchafedig, *sef* gair unsyllafog ; a'r llall yn accen ddescynnedig, *sef* gair a mwy nag un syllaf yn y brifodl, *fel* hyn :

Croyw fu cryf fedd,

Cof yw cyfedd.

S. V.

Pennill o Gywydd dauair hirion, a fesurir o ddwy *fraich*, ar y Gyhydedd gaeth ; *sef* saith *syllaf* bob braich, ac yn unodli ar accenion *amrafael*, *fel* deuair *fyrrion fel* hyn ;

Yspys y dengys y dyn,

O ba radd, y bo'i wreiddyn.

T. A.

Pennill o Gywydd Llosgyrnog, a fesurir o ddwy fraich o'r draws gyhydedd, yn unodl a *syllaf gorphwysfa* y gynghanedd yn y Llosgwrn, *fal gair cyrch*; a'r llosgwrn yw y drydedd *fraich*, ar y gaeth gyhydedd, yr hwn sydd yn arwain y *brifodl* drwy'r Cywydd, fel hyn;

Yr hen ddaiar hon a dduodd,

Y gloyw Awyr a ddrwgliwiodd,

A grynodd pan yroned. Sp. V.

Owdl gywydd, a fesurir o ddwy *fraich* o'r gyhydedd gaeth, yr odl *olaf* o'r *fraich gyntaf*, yn cyrchu'n unodl, ac mewn amryw accen, at air yr *orphwysfa*, yn yr ail *fraich*, sef ar air cyrch a'r odl olaf yn unodli drwy'r cywydd; Rhaid i'r gynghanedd yn y *fraich olaf*, fod yn gynghanedd groes rywiog, fel y galler troi Owdl gywydd, yn gywydd deunair hirion, fal hyn;

Llyth Trefor llu waith Trafael,

Llew ebrwydd hael, llwybraidd hedd. S. V.

Darfu son am Benhillion o Gywydd; Yr ail gainge o brydyddiaeth yw Owdl. Owdl yw caniad o amryw fesurau, yn ol yr arferiad sathredig; eithr wrth gerdd y tri Phifardd, a dull Cyn-ddelw, ac arfer holl Ieithoedd Europa, ni ddylai ond un mesur fod yn yr un caniad; a pha fesur y dechreuer, cynnal hwnnw trwy'r Owdl, pe Gorchest y beirdd fai: Ac os hir fyddai'r caniad, mae'n rhydd newid y brifodl. Wyth mesur Owdl y sydd; Cyhydedd, Toddaid, Gwawdodyn, Hupynt, Cadwyn fesur, Cyrch a chwтта, Clogyrnach, a Gorchest y Beirdd.

Fair Cyhydedd mesur y sydd; sef cyhydedd
wythban

wythban, cyhydedd naw ban, a'r Gyhydedd wendrosogl.

Oyhydedd wythban yw, pennill o bedair braich ar y draws gyhydedd : sef wythsyllafog bob braich, so yn unodl drwy'r Owdl, neu'n preestio : fal hyn,

*Pr Mab cyfarchaf rhwyddaf rhin,
Pr Tad a'r Yspryd gloywbryd, glan.
Neud mau yw cofiau can i'm cyfun,
Nid rhaid i'm ammeu llyfrau llen. Tal.*

Oyhydedd nawban, a fesurir o bedair braich, ar y Golofn drosogl, a phob braich yn unodl drwy'r Owdl, fal hyn :

*Na bo'n un aelod boen anialwch,
Na gweyw i'w ddilyn nag eiddilwch,
Er y dwfr Restrwaed i farw rhwystrwch,
Er y gwirion waed fab gurando f'ebwch.*

Y gyhydedd wendrosogl a fesurir o dair braich, y ddwy gyntaf o bum syllaf bob un, yn unodl a gair yr orphwysfa yn y drydedd fraich, fel gair cyrch : a'r drydedd o naw syllaf, yn arwain y brifodl, drwy'r Owdl, fel hyn,

*Torr weyw at yr Ais,
I'th ddwrn a'th harnais,
Trech yw na malais trichan milain. G. T.*

Toddaid yw mesur o ddwy fraich, lle bo gair ar ol y brifodl yn y fraich gyntaf yn toddi, o dri syllaf i ddau, o ddau i un. Y fraich gyntaf yn wastadol o'r mesur hyn, a fydd o ddeg syllaf, sef ar y gyhydedd hir ; yr ail fraich fydd naill, ai o chwech, ai o naw, ai o ddeg syllaf. Pa *gyng-hanedd* bynnag, fo'n y fraich gyntaf ; rhaid i'r orphwysfa

phwysfa fod yn y pumed syllaf; Ac os cynghanedd sain fydd, yr hon sydd naturiolaf yn y man hyn, fo ellir goddef y gwant, lle fynner am y bo'r rhagwant yn y pumed syllaf. A'r ail fraich, sef chwech syllafog, yn ateb i'r gair toddaid naill ai ar gynghanedd sain, neu ar gynghanedd braidd gyfwrdd, hon fydd rydd i'w chanu'n y fraich yma; (ac mewn un o'r mesureu, ond y fraich olaf i hwn, nid rhydd i'w chanu, a phaladr Englyn unodl union) a'r brifodl cyn y gair toddaid, yn unodli a'r olaf o'r ail fraich, ac felly trwy'r mesur.

Da'rhydd am gywydd i'm gaeau, a main

Eilw monwes degau; &c. I. D.

A thoddaid o'r mesur hwn, ni chenir, ond ynglyn âg arall, am hynny toddaid ynglyn y gelwir.

Eithr o bydd yr ail fraich i'r toddaid o naw syllaf neu ddeg, rhaid i'r gynghanedd fod naill ai yn sain at y gair toddaid, neu'n groesgyghanedd. ac yn ateb ar yr orphwysfa i'r gair toddaid, yr hwn fydd yno'n air cyrch: os naw fydd, fal hyn.

Oes ffawydd na nydd neu Onn, yn wewyr,

Oes brenffyr nas gyr yn ysgyrian. D. N.

A thoddaid deg syllafog yn yr ail fraich, ar groesgyghanedd, fal hyn,

Fal gwolith awyr ffrith ar ffrwythau'r ddaïar,

Fal graon fal adar fal gro neu fiodau. T. A.

Dau bennill a henyw o doddaid sef, byr a thoddaid, a hir a thoddaid.

Byr a thoddaid a fesurir, o doddaid o un syllaf ar bymtheg yn gyntaf; a phedair braich wyth syllafog

syllafog: sef, ar y gyhydedd draws; a thoddaid
o'r unrhyw ar ol, yn unodl oll fal hyn,

Duo Arglwydd o rwydd wiu ras, da olud,

Oni deilia a gwnn blas,

Ail oferwaith i lafurwas.

Dwl pul iawn geisio adail plas.

A Duo oni wilia Dinas,

Oferwr gwylter a phob gwas:

Duo yw'n gwylter gwr a i guras gadarn,

Duo a geidw bawb addus. M.

Os y mesur hwn a genir drwy'r Odl, nid rhaid
ond un toddaid rhwng pob pedair braich.

Hir a thoddaid a fesurir o bedair braich o'r
gyhydedd hir, a thoddaid o ugain syllaf ar ol yu
unodl drwy'r Owdl, fal hyn;

I Fair da weiniaith a fu'r dewinion,

Oraith resymol with eirieu Simeon,

Mawr oedd i'r ddeulu myrdd o urddelion,

Ymgais a'r seren, megis rhes irion,

Gwiriondeb Sioseb dewisason hi,

Gada'r gairiddi gyda'r gweryddon. G. T.

Gwawdodyn yw mesur, o amryw rifedi freichieu
ar yr un golofn, a hynny a wna ddaa ryw waw-
dodyn; sef gwawdodyn byr, a gwawdodyn hir.

Gwawdodyn byr a fesurir, o ddwy fraich ar y
gyhydedd drosgl, a thoddaid o bedwar syllaf ar
bymtheg ynglyn, ac yn unodl trwy'r Owdl, fal
hyn;

Ni phery Onnen i'w pheirianneu,

Dan dewin ddyrnod ond yn ddaruou:

Ewinawg osawg aseu braich a bron,

Angddai linon yn ddolcannau. T. A.

Gwawdodyn

Gwawdodyn hir a gyfansoddir o bennill, ar
Owdl a elwir, Cyhydedd naw ban; sef, pedair
braich ar y gyhydedd drosgl, a thoddaid o bed-
war syllaf ar bymtheg, ar ol yn unodl drwy'r
Owdl, fal hyn;

*Yniach na hefwyr na chynhaliaeth,
Na meirch o arial na machwriaeth,
Na gweilch i'w harwain na gwalchwriaeth,
Na chwn awyddus na chynnyddiaeth,
Na cheision mwy son am wasanaeth gwledd
Na chog i Wgnedd na chogunaeth. T. A.*

Hupynt yw mesur a rydd i'r Bardd ryddid, i
ganu naill ai'n gynghaneddol, ai'n gyfochr.
Dau ryw Hupynt sydd; sef hupynt byr, a hu-
pynt hir. Hupynt byr a fesurir o ddwy fraich;
y gyntaf ar y gyhydedd fer, o bedwar syllaf; y
llall ar y gyhydedd gaeth, o saith syllaf; hefyd
y fraich gyntaf ar air cyroh, naill ai mewn cing-
hanedd, neu'n gyfochr, yn ateb i'r orphwysfa,
yn y pedwerdd syllaf, o'r ail fraich; a'r olaf yn
unodl trwy'r Owdl, fal hyn;

*E gasyl i gyd,
Y bobl o'r byd, bu abl o'r bon,
At blant bu lwydd,
Abram ebrwydd, arwydd wyriom.*

Hupynt hi a fesurir o dair braich, sef dwy fal
hupynt byr; ac un arall fal y gyntaf o'r ddwy;
fel hyn.

*It feidduned,
W ddymuned,
Eilwedd Luned, wylwedd w lonydd,
Uthr doluriais,
O'th serch curiais,
A llasuriais, fy lleseridd.*

Cadwyn fesur yw pennill, lle cadwyner y cynganeddion yn orchestol. Dau ryw Gafwyn-fesur sydd; sef cadwyn fyr, a chyfochr gyrch Cadwynog.

Cadwyn-fyr a fesurir o bedair braich, ar y gyhydedd draws; a phob braich yn cynganeddu. bob ail syllaf drwy bob braich; a'r gair olaf o'r fraich gyntaf, yn cyfochri ar air cyrch, at orphwysfa'r ail; a'r olaf o'r drydedd fraich yr un modd, ar air cyrch cyfochr, yn ateb i'r orphwysfa a'r bedwaredd, yn unodl; a'r pedwerydd syllaf o'r fraich gyntaf a'r olaf a'r ail, a'r pedwerydd syllaf o'r drydedd fraich, a'r olaf oll, yn unodli trwy'r Owdl, fel hyn,

*Elis Eiliog o'i lys olau,
Eilwad olau i wlad elwog;
Euran warrog o run orau,
Ar y dorau wryd eurog.*

Cyfochr gyrch cadwynog, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws, fal cadwynfyr a Hupynt hir ynglŷn âg ef i gwplau'r mesur; hefyd y syllaf gyntaf o'r fraich gyntaf; y syllaf olaf o'r ail fraich; a'r syllaf olaf o'r bedwaredd fraich, yn unodl gyda phrifodl yr Hupynt; ac felly trwy'r Owdl: a'r trydydd a'r pedwaredd syllaf o'r fraich gyntaf, yn unodl gyfochr, a'r trydydd a'r pedwerydd syllaf o'r drydedd fraich; a'r ddau syllaf olaf o'r fraich gyntaf, yn unodli a'r trydydd a'r pedwerydd syllaf o'r ail fraich yn gyfochr ar air cyrch: ac felly y ddau syllaf olaf o'r drydedd fraich yn ateb yn gyfochr unodl ar air cyrch, i'r trydydd a'r pedwerydd syllaf o'r bedwaredd fraich fal hyn

*Gercint culen, gwr nod calis,
 Red a phalis, rket a phiser,
 Hyd y Muelen, hude u malis.
 Mwy Iaitth Alis, yma'th kwyler,
 Cap'ten sirsau,
 Castell, Plasau.
 Gwyr, Curasau, a grog croeser :
 Iachist gysau,
 Galanasau,
 A chpatrasau, i chwitroses.*

Cyrc h a chwtt a fesurir o wyth braich ; y chwech fraich gyntaf, fal tri phennill o gywydd deuair hirion yn unodli ; a'r ddwy olaf fal pennill o Owddl gywydd ar air cyrch, ond nad rhaid cadw accen ; a'r fraich olaf yn unodli, a'r chwech gyntaf ; ac felly'n arwain yn brifodl trwy'r Owddl, fel hyn,

*Rofai yw'r llus ar for llon,
 Hyn oles a wnai Leision ;
 Egar gwres, yn y gaer yron,
 Egar seigneu gwresogion ;
 A'r Ceirw fry o barceu'r fron.
 A'r Eogiaid o'r E'gion ;
 A gwenith a ph b gwinoedd,
 Mae'r tiroedd a'r mor tirion.*

L. M.

Clogyrnach a fesurir o bum braich : y ddwy gyntaf ar y draws gyhydedd o wyth syllaf bob un ; y ddwy ganol o bum syllaf bob un ar y gyhydedd wen ; a'r olaf o chwech syllaf ar y gyhydedd las : y fraich gyntaf, a'r ail, a'r olaf yn unodli trwy'r Owddl ; a'r drydedd a'r bedwaredd fraich yn unodli ar air cyrch, a'r trydydd syllaf o'r fraich olaf, fel hyn,

Y Prophwydi puraf hediud,

Aml o rinwedd a'i nawl ranniad ;

Drwy

*Drwy gerdd draw a gair,
I un mab Ion Mair,
I'w gadair a'i godiad.*

Gorchest y Beirdd a *fesurir* o dair braich; y ddwy *faenaf* o bedwar *syllaf* bob un, ar y gyhydedd *fer*; a'r *olaf* o saith *syllaf* ar y gyhydedd *gaeth*: a'r ail *syllaf* o'r *fraich gyntaf* yn unodli a'r ail *syllaf* o'r ail *fraich*, ac a'r ail o'r drydedd; *hefyd* y *syllaf olaf* o'r *fraich gyntaf*, a'r *olaf* o'r ail, yn unodli ar air cyrch a'r pedwerydd *syllaf*, o'r *traich olaf*; y *syllaf olaf* o'r *fraich olaf*, yn arwain y *brifodl* trwy'r Owdl. Ac o *fewn* pob pedwar *syllaf* o'r deuddeg *cyntaf*, yn croesgyngghaneddu 'n rhywiog, ac yn unodli wyneb yngwrthwyneb: y tri *syllaf olaf* yn croesgyngghaneddu, a'r pedwar *blaenaf*. yn y *fraich olaf*: *fal hyn*,

I'r drwy, ward rydd,

Oer wg, e rydd,

A dwg, y dydd, diŷ i'w dŷl. M.

Soniwn bellach am Englynnion.

Ynglyn yw mesur, a geir naill ai ar ei ben ei hun, ai mewn gosteg, neu mewn Owdl. Dau ryw ynglyn ysydd, sef Ynglyn unodl, ac Ynglyn Proest. Tri rhyw Ynglyn unodl sydd: sef unodl union, unodl cyrch, ac unodl crwcca: Englyn unodl union, a gyfansoddir o ddau *fesur*; sef Toddaid o un *syllaf* ar bymtheg a phennill o Gywydd deuaire hirion ar ei ol ynglŷn ag ef: *fal hyn*,

Iesu i'n caru sy'n dwyn coron,—Naf

Iesu Naf Angylion,

Iesu yw Ior yr oes hon, . . .

Iesu a geidw ei weision. L. Gl.

Gosteg yw caniad o ddenddeg Englyn unodl union, yn unodl trwy'r caniad.

Englyn unodl crocca, nid angen mesur.

Nag unodl union; eithr gorfod, gossod.

Y pennill o gywydd denair hirion yn

flaenaf a'r Toddaid ar ol, fel hyn;

Braidd yn fyw bereiddwen ferch;

Briw digwyn bradog annerch:

Briwiad osodiad fy serch, ar loer gwlad,

Brad anfad bryd wenferch, R. M.

Englyn unodl cyrch a fesurir, ac a genir; fal y pedair braich olaf i gyrch a chwta, fel hyn:

Gwenferch odidawg-winsaeth,

Gyrrodd i wan gur oedd waeth:

Gorydd dig wiurudd degau,

Gtyd acau gyrru dwysaeth. R. M.

Englyn Proest yw mesur heb unodli fal yr holl fesureu, eithr yn Proestio. Dau ryw Englyn proest sydd; sef proest cyfnewidiog, a Phroest cadwynodl: Proest cyfnewidiog a fesurir yn un hyd ag unodl cyrch: eithr lle dylai y brifodl fod mae'r syllaf olaf yn cyfnewid bogeil neu ddiphthong ac yn cadw'r un gytsain, trwy'r pedair braich, mewn syllafeu o'r unrhyw, fal hyn;

Gwynedd am ein gwledd mas'n gloff,

Marw llew'r Prins mae'r lloer heb pmiff,

Marw'n pen a'n Capten a'n cyff,

Marw Salbri i'm a'r sel bruff. T. A.

Proest cadwynodl a fesurir o'r un hyd; a phroest cyfnewidiog, eithr bod y fraich gynlafa'r iaill, yn Proestio yn y syllafeu olaf o bob braich; a'r drydedd yn Proestio a'r bedwerydd; felly y Fraich

fraich-gyntaf yn unodli a'r drydedd, a'r fraich ail
yn unodli a'r olaf; yn y ayllafeu olaf, bob braich,
fal hyn,

Eglwyswr teg o Leiston,

Apostol o fab Iestyn,

Ail Daniel o wlad Einion,

Allwedd dysg a lleuddad wyn. L. M.

Rhydd i'r Prydydd gysylltu'r mesureu.

Y neb a chwennycho wybod yohwaneg, dar-
llened Ramadeg Ieuan Dafydd Rhys.

Gogleision am Deddfai, &c.

Llywodraeth 'sywaeth y sydd, yn pallu,

Nid pwylllog yw'n crefydd;

O Iesu deg nos a dydd,

Yfed mae pawb yn ufydd!

Meddwi a llenwi tri lloneid rhyw fol,

Rhyfela fal Diawleidd;

Cryf a gwan cyfan y ceid,

O'r iawn yn lladd yr enaid.

Rhai'n cyrchu chwdu, rhai'n chwith, eu gweled

A'i golwg yn lledfrith,

Rhai'ngwario, a rhai'n gyrrith,

A rhai'n meddwi, ym mhob rhith.

Pwylla a gwilla galyn oer fariaeth,

Ddrwg arferu meddwyn,

Meddwi a llenwi pob llynn,

Yfed nes methu'i ofyn.

Hus Rob.

Gwell

Gwell arfer tymmer y taid, o'i dylwyth
 Na dilyn rhai ffoliaid,
 Gwell peidio brwysgo heb raid,
 Gwall i un goll ei enaid.

Colli braint y saint ydd ys heb,—Iechyd,
 O achos glothineb,
 Colli'i enw a'r callineb,
 Colli Nef nid call i neb.

Rwy'n bario o'rowso cur yssig, i'r pen,
 A'r poeneu sy ffyrnig,
 Da iawn i ddyn a di ddig,
 Ei chodi bob ychydig.

Llwy'r drais ni oherais i'ch hyn, a chrowso
 A chroesi'r ffïol rhyngthyn,
 Llenwch ac yfwch y llyn,
 Bawb ei ran bob y rouyn.

Yfød yn galed heb gywilydd,—Bir,
 Bore a diwedd-dydd,
 Nid oes pen nac Ymmhenydd,
 Meddaf fi nad meddw a fydd.

Anifail o gail a gaid yn dofi,
 Ond yfød ei gvfraid,
 Y dyn fføl, o Duw ni phaid,
 Myn lanw mwy na'i lonaid.

Bob dydd oll y bydd lle bo, tafarn,
 Etifedd a fetho,
 Y pen ofer pan yfo,
 Swrth yw'r grefft, a syrth i'r gro.

Nid teg it redeg at rwyd, y tafarn,
 Etifedd drwg ydwyd,
 O waith deillion i'th dwyllwyd,
 Dail boeth ddyn, deall beth wyd.

Am yfed Iechyd.

Yfed dwys yfed y sydd,—ar uchaf,
 Yr Iechyd bigilydd;
 Yno calyn y bwilydd,
 O'r Iechyd afiechyd fydd.

I'r Cybydd.

Ond gressyn i'r dyn anudonol,—gwrs,
 Gwerthu gorsedd *nesol*,
 Crist a'i deyrnas rassol,
 Am un Aer dir mewn cwr dol?

Cybydd casglu bydd, dda byd.—i'w oadw,
 Ac etto mewn *drygfyd*,
 Ac arall mewn seguryd,
 A'i far a'i gwasgar i gyd.

Er cael stad y wlad lydan, a'i chyfoeth,
 Ni *chafodd* mo'i amcan,
 Ystudio bydd ni rydd ran,
Mysurio am *fwy* arian.

Os bydd aml awydd i'mlowio, a'r byd,
 Er ei boen yn gweithio,
 Pa fwy a'n graff a gaffo,
 Mwyaf fydd ei awydd o.

Ffydd fuith na gobaith gan gybydd, *nid oes*
 Ond yssu mewn awydd,
 Heb wybod nod annedwydd,
 Pwy o'r boen a piau'r budd.

Er bod dull hynod yn llawnion, ei dai
 A'i diroedd yn firwythlon,
 Ni wyl gael fyth, dichwyth don,
 Yma ddegwm ei ddigon,

Cau'r porth Duw'n commertho, a wna'r cy-
 Ar y cwbl sydd eiddo; (bydd,
 E ddaw'r Angen dan ddriango),
 I'w dy'n fain at ei En fo.

In erbyn Balahder.

Oes urddas na Phlas na phleser, na chost,
 Na chestyll na gwyokder;
 Naddim a wnaeth ein Duw Ner,
 Dan Nefoedd nad â'n ofer.

Dwyfol.

Mohiant gogoniant gwiw gynnydd, i Dduw
 Am ei ddonieu'n ufydd;
 Efe roes efe a rydd,
 Yn ddi boen i'n dda beunydd.

Dan Dduw goreudduw y gorweddaf, i lawr,
 Dan ei law y cyagaf;
 A than dy nerth un Duw Naf,
 Y ceidwad mawr y codaf.

*Ychydig Ddirifau ar amryw Destunieu, (can's
 felly gelwir hwynt, o'r arddodiad di a rhif, am
 nad ys yn edrych at gyhydedd y fraich wrth eu
 canu; ac nid Durieu neu Dyrieu, fel y tebyg
 i'nt) er mwy o'r holl sy'n canu synwyr yn fwy
 na chynghanedd; gan na'nt holl cynghanedd heb
 synwyr ddim.*

Y Mae'n haws adnabod dynion,
 Wrth eu chwanteu a'u hamcanion,
 Na'u hadnabod yn ddiarnheu,
 Wrth weithredoedd ac wrth eirieu.

Nid

Nid yw'r gwaethaf yn gweitharedu,
 Llauer drwg ymae'n ei chwantu,
 Llauer gwaith rhag digwydd iddo,
 Cael ei gospi a'i g'wilyddio.

As nid yw y goreu o ddyrion,
 Mor ddaionus ac ymrymion,
 O eisieu nerth a rhinwedd anlwg,
 Ao waith bod eu hanian cyaddrwg.

Goreu doethlder yw difrifweb,
 Goreu Physyg yw sobreddiwch,
 Ao o'r golud a'r meddiannu,
 Cydwybod dda yw'r tryssor goreu.

Rhad arhiawedd addyso hyfryd,
 Ydyw enaid dyn a'i fywyd,
 Heb y rhai'nauid byw o'hono,
 Idr bod chwyth ac anadl yntho.

Nid oes unbyw byw a'i driglad,
 Ar y ddacwr is law'r lleuad,
 Dinewidiad na difrycheu,
 Yn wastadol mwy na hitheu.

Nid oes un yn berffeith hollol,
 Yn yr amser sydd bresennol,
 Nid oes am hyn ond byw mawn gobeith,
 Hyd oni ddol yr amser perffeith.

Mae gennyf achos ll' o ddyddieu,
 I alaru am fy mieu,
 Ond ni feddaf galon barod.
 I alaru un diwrnod.

Mawr yw'r dadleu yn y gwledydd.
 Ynghylch corph a chadach crefydd,

Ond

Ond am enaid crefydd ddiddan,
Nid oes nemawr o ymddiddan.

Os gweli ddyn yn lled orphwyllo,
Na chytcam byth ag ef ymeirio,
E daw a son ond dweyd ei gyfran,
Ni'mdeurodd un erioed ei hunan.

Mwy cristnogseidd a rhinweddol,
Ar ol syrhad neu gam aruthrol,
(Duw a wyr) ei lwyr anghofio,
Na oheisio talu'r pwyth am dano.

Y neb ni fedro fwynion eirieu,
A lledguddio'i ddigter weithieu ;
Fe fydd hwn wrth lywodraethu,
Ben ynghad mewn gwlad a theulu.

Os digwydda it orthrymder,
Cam ac ammharch ammhorth prudd-der,
Cofia hyn a chymer gyssur,
Mai gwell goddef cam wna'i wneuthur.

Mi ddarllenais ddwad yn rhywfodd,
I'r byd hwn wyth ran ymadrodd,
Ac i'r gwragedd mawr les iddyn,
Fynd a saith o'r wyth-ran rhyngthyn.

Gwell gan adyn llwyr-falch lled-ffol,
Fod yn Din-cerdd yn wastadol,
Na dysgu bod yn Bencerdd hynod,
Gan un a fyddo gwell ei wybod.

Ynfyd gwr a ry-ddigofa,
Pan y rhoddir achos iddo ;
Yn-fyttach yw i wr ddigofa,
Heb ddim achos yn ei beri.

F'aeth rhai tadeu i Gehenna,
 Am gas₂lu cyfoeth a oham elwa ;
 A'i plant eilwaith sy'n mynd yno,
 Am eu gwasgar a'i cam dreulie.

Edifeirwch at Dduw gwir-gu,
 A fydd tuag at ein Harglwydd Iesa,
 Caru pob dyn fel ei huan,

Dyna'r tri pheth rheidiad allan.

Mae llawer gwr Duw a'i cymmortho,
 A mawr eisieu cyfoeth arno ;
 A llawer cyfoeth gan ryw adyn,
 Ac eisieu gwr yn berchen arnyn.

Er bod Rhufain fawr yleni,
 Yn cadw'r enw hen oedd arni ;
 E gollodd hon mae hynny'n reasyn,
 Ei hen Ffydd ys llawer blwyddyn.

Mae rhai'n mynd i golledig'eth,
 Am nad ynt yn credu un peth ;
 Eraill ynt yn golledigion,
 O waith credu mwy na digon.

Eisieu mawr ar wlad y Cymro,
 Yw cyfaroh Duw a dioloh iddo ;
 A mwy undeb yn ei Chaerydd,
 Rhwng Athrawon ynghylch crefydd.

Nid wrth lathen y mae itti,
 Fesur o flaen Duw dy weddi ;
 Ond wrth bwys y mae i ti'n wasted,
 Ddwad a hon o flaen y Drindod.

Oedi troi at Dduw yn fuan,
 A phechan dros un orig fechan ;

All ddwyn tristwch i'r fath adyn,
 Na ddarfyddo lawer blwyddyn.
 Mae rhai mor gelyd a chybyddol,
 Mal pettaent i fyw'n dragwyddol;
 A rhai eraill mor afradlon,
 A phe baent i farw'r awron.

Ni all tremiad y Planedau,
 Ddrwg i'r dyn sydd a'i *feddylieu*,
 Yn tueddu yn wastadol,
 At weithredoedd da rhinweddol.

Lle bo *cyfraith* Duw'n weledig,
 I enaid dyn i ffrwyno'i *ryfyg*,
 Ni bydd ond awdurdod bychan,
 Ar wynieu hwn gam Ser na Sattan.

Nid yw Brudiwr nes er gwybod,
Tyngedfen ddrwg heb allu'i rhagod;
 Nid oes borth rhag hon a'i niwed,
 Ond ffoi at Dduw i gael ymward.

Y dyn i deli maes o'i eneu,
 Bethu budron eu harogleu,
 Mae'n argoel, *sed* ei enaid heintus,
 Yn ymborthi ar beth aflagus.

O *ryfeloedd* y byd ymma,
 Goreu *rhyfel* ac ymwrta;
 Yw *rhyfela* ac ymwrfa,
 Am y *Nef* yn erbyn *pechod*.

Tra pheryclaf yw ddrwg ddynion,
 Yr amsetoedd ac y bydden,
 Gyda'r dawiol; a'i hwynebu,
 Oddi allan megis hwynteu.

Faly bo llywiau dwyr dynion,
Yn eu moeseu a'i harferion;
Felly agos y bydd pob-dyn,
Ag a lywodraethir ganthyn.

O'r Yscoldai a'r athrawon,
Sy'n y byd i ddyscu dynion;
Goreu ysgol yn yr holl fyd,
I ddysgu dyn yw ysgol adfyd.

Dan demestloedd a thrueni,
Y byd hwn a'i ddirfawr drychni,
Goreu gwasgod ac ymgeledd,
Yw bodlonrhwydd ac amynedd.

Gofid rhai a'i dirfawr drallod,
Yw eu bod yn meddu gormod;
Gofid eraill a'u trallodion,
Yw bod ganthynt lai na digon.

Am ddamweiniu y byd yma,
Doed helaethrwydd doed oxfyngdra,
Doed gwaethygu'n lle mynd well-well,
Nid rhaid aros yntho'n neb-pell.

Amser sydd i dewi am bob-peth,
Ac amser sydd i dd'wedyd rhyw-beth;
Ond ni ellir cael un amser,
I dd'weyd pob peth ya ddibryder.

Bu'n edifar fil o weithieu,
Am lefaru gormod eirieu;
Ond ni bu gymmaint o beryglon,
O lefaru llai na digon.

Un o'r goreu o blant Adda,
Yw gweipidog fyddlon purdda;

Un o'r gwaethaf o blant dynion,
Yw gweinidog drwg anffyddlon.

Nid yw deall dysg a donieu,
Heb gydwybod dda'n ddiammeu,
Ond fal llysiu pŕ sy'n trwsio,
Corph drewedig yn ei amdo.

Ni bydd y farn yn union union,
Lle bo cariad gwressog ddigon ;
Nac ychwaith lle bo direidi,
A chenfigen yu rheoli.

Lle bo cariad fe gannolir,
Mwy ond odid nag a ddyair ;
A chenfigen a wyl feion,
Lle na byddo dim achosion.

Os bydd i un fy nhwyllo unwaith,
Duw faddero i hwn ei ddrygwaith ;
Ac o'm twylla ddwy o weithieu,
Maddened Duw am hyn i minneu.

Ei fai ef ei hun yn bennaf,
Oedd fy nhwyllo i'r tro cyntaf ;
A'm bai inneu oedd yr eil-dro,
Fod mor ffol a'mddiried iddo.

Os bydd arnaf eisieu rhyw-beth,
A fo rheidiol i'm cynhaliaeth ;
Y mae'r cebydd er a feddo,
A mawr eisieu pob peth arno.

Myfi wn yn hysbys ddigon,
Na bydd arnaf fawr ddiffygion ;
Tra'r ymgadwaf rhag yr arfer,
Sy'n y byd o chwennych llawer.

Rhced

Rhoel Duw fynno immi yma,
 Pe'l fai'n llawer llai na ngwala :
 Doned ffyniant deued methu,
 Fe fydd gwell nag wyf yn haeddu.

Dyn yn cael ei anrhydeddu,
 Heb ddoethineb yn ei feddu ;
 Sydd fal pren a fai'n blodeno,
 Heb ddiin ffrwyth un amser arno.

Bydd barchedig it dy hunan,
 Na wna'n ddirgel ddim yn un-man
 Ond a fynwyt ei fynegi,
 I'r un mwyaf wyt yn berchi.

Y Crocodil ar ol wylofain,
 A ladd y dyn a ddalio'n gelain :
 A llawer dyn a'i wylu oerllyd,
 A huda'r llall i drango anhyfryd.

Nag ymddiried, clyw'th rybuddio,
 I Estron byth os gelli beidio ;
 Ni thwyllwyd neb erioed yn ormodd,
 Ond y gwr a ymddiriedodd.

Perchen tafod a arfero,
 Ddweyd am bawb y peth a fynno,
 Bydd rhaid iddo wrando'n fynych,
 Lawer peth ni bo'n ei chwennych.

Y chwannoccaf i gael breinieu,
 Yw'r yscafnaf ei feddylieu ;
 Ni fyn hwnnw lai na blysio,
 Gradd nad yw hi n addas iddo.

Drwg rhy hacl, a drwg rhy gybydd,
 Drwg rhy drist a rhy lawenydd,

Ffordd ganolig rhwng dau ormod,
Yw *ffordd* rhinwedd *glodfawr* hynod.

Drwg rhy lwfr, a drwg rhy ofnog,
Drwg rhy ddewr, a rhy galounog;
Nid da yw rhy o ddim yn un-modd,
Meddai ddoethion yr hen oes oedl.

Pa wr bynnag a'r a fyddo,
A chynghor drwg annuwiol iddo:
Ni erys hwn yn ddiamryfus,
Nemawr iawn mewn *ffordd* ddaionus.

Na fydd farnwr rhwng Cyfeillion.
Ond *cais* ddwad a hwynt yn fodlon;
I gyttuno bob ychydig,
O deg a theg yn *ddiddi*; *ddiddig*.

Odid mawr i undyn weled,
A'i ddeu lugad er eu lletted;
Trwy'r holl fyd beth mor hyderus,
Ag yw balchder anwybodus.

Y mae'n *rhaid* i'r gwr a garo
Gael y peth a fo'n ddymuno;
Yn ddyfal *iawn* a mynych mynych,
Wneuthur rhyw beth gyda chwennych.

Dyn a'i dafod a weidio,
Ao heb wneuthur *dim* a'i ddwyllo;
Ni wna'r fath dduwioldeb *diag*,
Reidus byth yn *ddianghenog*.

Tra *bendigaid* fil o *weithieu*,
Ydyw'r addysg bur a'r moeseu;
Yn y dref a'r wlad a'r D'eyrnas
A *ddiwyg* o'n natur atgas.

Hwyr y daw i'r Nefoedd hyfryd,
Neb rhyw ddyn, pan ddarffo'i fywyd;
Sydd yn rhedeg ac wynebu,
Tra fo byw at Uffern orddu.

Ni bydd crefydd dda ragorol,
Yn ddaionus nac yn fuddiol;
I'r crefyddwr drwg a fyddo,
Heb un rhith *daioni* yntho.

E haera llawer dyn yn ddiball,
Fod gantho gariad mawr at arall;
Heb fwriadu minwedd fechan,
Ond ei les a'i fudd ei hunan.

Gwaethaf un o'r holl wyllt filod,
Yw'r absenwr ddrwg ei dafod;
Ac o'r rhai dof medd pawb gan mwyaf,
Y gweniaithwr yw'r enbyttaf.

Y deall sy flaenor ac yn benaeth,
Yn ysgoldy pob dysgeidiaeth;
Ond yr wilys mewn gwirionedd,
Sy'n cadw'r blaen yn yscol rhinwedd.

Y mae Sattan tad y pechod,
Tu hwnt i neb rhyw ddyn ar wybod;
Ond ni fyn o wir *ddireidi*,
Wneuthur mymryn o ddaioni.

A thebyccaf peth i Sattan,
Osi bydd e yn o'i hunan;
Yw rhith Gristion tra gwybydol,
A fo'n byw yn anghristnogol.

Da am dda sydd dra rhesymol,
Drwg am ddrwg sydd anghristnogol;

Drwg am dda sydd dra chythreulig ;
Da am ddrwg sydd *fendigedig*.

Yr hwn hi choelia Dduw pan fyddo,
Yn gorchymen ac yn addo ;
A gaiff goelio'r pen diweddaf,
Holl fygythion y goruchaf.

Gochel fo tio'n *fynych fynych*,
Y gweithredoedd goreu feddych ;
Irhag cael dannod it yn rhy-dost,
Y gweithredoedd gwaetha' wnaethost.

Pob gwatwarwr gwnaed a allo,
O hir watwar a hir wawdio ;
A gyferfydd yn ddiammen,
A rhyw un a'i gwatwar ynten.

Na chais byth os wyt ddeallus,
Gyfiawnhau un tro drygionus ;
E wna hyn o weithred ddifraint,
Hyd y canwedd y dau cymaint.

Iaco ab Dewi

Y byd a syrthiodd mewn bâr, *bwriadus*.
A'r brodyr nid ymgar :
Am y golud mae galar,
Gelyn gan gerlyn ei gâr.

Un doeth *gwis* gyfoeth a gofia, gynghor,
Irhag angen a *dirdra* ;
Ac un annoeth gwn yna,
Er *din*, ni wna gynghor da.

Mawl

Mawl i'r Llyfr.

(24

Mawl i'r Llyfr.

GWEL Gymro euro Araith, Ardorhag,
Ddi orchest Pr. dyddiaith,
Bur ddiidwyll y Beirdd Odiath,
Blaid y Gerdd a blodeu'u gwaith.

Angenrhaid Enaid daioni, yr Iaith

O'r eithaf fu'n colli:

A gwiw lwyddiant gael iddi,

Iawn gymmorth i'w hymborth hi.

Sion Rhyddereh.

D I W E D D .

HYSBYSIAD.

Bwriada Cyhoeddwr y gyfrol hon ddwyn allan (yn ystod yr haf nesaf) Argraphiad cyflawn o GRONICE THOMAS WILLIAMS, y MERCHANT TAYLOR, a elwid "Llyfr y Merchant," y llyfr cyntaf, (os nad wyf yn camgymeryd) a argraphwyd erioed yn Ngogledd Cymru, a'r hwn sydd ers talm mor brin, fel y dywedai hena-iaethwr enwog---*Nid oes y fath beth a chopi cyflawn o hono i'w gael yn yr holl wlad.*"

EI BRIS NEWN AMLEN FYDD 1s. 6d.

A T T O D I A D.

Gafodd fod i ni weithian a thargrwyd y Flores Poetarum Britannicorum, a'r Llyfr Barddoniaeth, air yn hir hyd y gallem fel y digwyddasant ddoe Pa dwylaw, di-chon mai neu unfuddiol a diddwr gan awl ddarllenwydd, fyddai cael crynodeb o'r ychydig fanylion a wyddis am y Llyfr, ac am y gwahanol enwogion a fu'n offerynol i'w gasglu a'i gyhoeddi.

Deallir i'r Flores Poetarum gael ei gasglu ynghyd gan mwyaf gan y Doctor Dafis o Faliwyd, a'i adael gandde ef mewn ysgrifen, a thebygol ydyw i'r Ysgrifgopi hwnw syrthio rywfodd i ddwylaw Iaco ab Dewi, ac iddo yntau drefnuso ychydig arno, ac ychwanegu atto y Dirifau a rhai pethau ereill, ac yn ddiweddar oll i'r Parch. Dafydd Lewis, Person Llanllawddog, un o ddisgyblion Iaco ab Dewi, ychwanegu yr ychydig weddill, ysgrifenu rhagymadrodd iddo a'i gyhoeddi yn y flwyddyn 1710, fel y gwelir oddiwrth y rhagymadrodd.

John Dafis, D.D. oedd wr genedigol o Lanferris, yn Sir Ddinbych, a derbyniodd y rhan forenaf o'i addysg yn Rhuthyn, dan yr Esgob Parry, derbyniwyd ef i Goleg Iesu Rhydychain yn 1589, lle y graddwyd ef. Symudodd i Goleg Lincoln yn 1608, a chymerodd ei Urdd Doethawr yn 1616. Gwnaed ef yn Gannonydd Llan-~~ce~~ yn 1604. Cafodd berigloraeth Mallwyd, a byw-~~io~~ methau Llanymawddwy a Dorowen wedi hynny, a byw-~~io~~ laph Llanfawr, a chorweiniaeth Llanfudud yn 1617. Yr oedd yn fawr ei wybodaeth yn yr Hebraeg a'r Groeg, yn feirniad tra manwl, ac yn chwiliwr difino i Henaf-~~io~~ iaethau. Cyhoeddodd ei Ramadeg Cymraeg Lladin "Antique Linguae Britannica Rudimenta" yn Llyfr 8 plyg yn 1621, ac ychwanegodd at, diwygiodd a chyhoeddodd Eiriadur Lladin a Chymraeg a Chymraeg a Lladin, Dr. Thomas Williams o Drefriw yn 1632. Ysgrifennodd rai

lyfrau yn Gymraeg, a chyfieithodd amryw eraill. Cyhoeddwyd rhai o honyntyn llyfrau wrthynt eu hunain, yn y Mwythig; yn ystod yr haner canrif cyntaf ar ol ei farwolaeth, a chyhoeddwyd amryw ddarnau detholedig o bethau eraill mewn Almanaciau a man lyfrau tua'r staer hwnw, ac y mae amryw ddarnau o'i waith heb orfoed eu hargraphu. Bu farw yn mis Mai 1644, a chladdwyd ef yn Eglwys Mallwyd yn Sir Feirionydd. Wele yn canlyn engraffit dyddorol o'i ryddiaith Cymraeg.

ACHAU'R CWRWF.

Ei fonedd, ei hanes, ei gynneddfau a'i wrthiau, fel ac i casglwyd hwy ynghyd (yn ol tebygoliaeth pawb) trwy ddiwydrwydd y Parchedig Ioan Davies, o Fallwyd. S. Th. D. 1644.

EI Dad oedd y Bregyn Moel ap yr Heiddbwn Ceirch, fysc o'r Ddiserth yn Sir Fflint, ap Odyngra, ap Nithdro, ap y Pynfarch ap Hopransigl, ap Mynyoh glap ap Bras-fal-goddaith-braff o bentre'r felin.

Y Bregyn Moel hwnw aeth i garu merch o ddeuddwr, a elwid wrth i henw Gloyw-fain grôyw-ber; a hithau yn ceisio ffo i'r Mor rhag ei dwyn o drais, ond fo'i daliwyd gan un a elwid Cyrch-ddwfr, ap Celyrn-ddwyn, o fryn y Pistyll, ac a'i dychwyd i gwra y Gerwyn, i ymgyfarfod ar Bregyn Moel. Ac yno i bu anghydfod mawr, ap anhrefn deat rhyngddynt ill dau: hyd oni ddaeth Deuwr o'r ddeuta i ddyddio rhyngddynt. Y naill oedd Piserfarum Chwydd-gyffro, Gwr o Dre Aberconwy, a'r llall oedd Hoppysyn Sais o wlad Essex. Ac o'r cyttundeb hwnw y ganwyd Etifedd a elwid wrth i hennw; Brwysgyn-ben-cynnwrf: ac a rodded ar faeth at y Capten Guttun tow ap Heilin Heiddgap, roddeswr gwenieithus o'r trauan, yr hwn a yfai'r trauan i hun gyda'r ddeuparth ddidal digywilydd. A phan ddaeth y mab maeth mewn Corph ac oedran, efe a aeth yn gecryddewr, ac yn gynhennus, fal i'r oedd yn rhyw iddo, ac a Chwannychodd ymrysson dewrder a'i Dadmaeth; a mynd i'r wace a wnaethant gerllaw drw; y Dafarn, a chasglu

ynghyd a wnaethant bob un ei blaid a'i wyr atto; a chydd a'r Capten yr oedd Sion, Safyn Serfyll, a'r Brych ar e' ogwydd, a Madog mynych gwyp, ac Ymyfed ap Dadwrdd, a'r Safnrhwth ap Gwefboer, ar Cogrwith mawr ap Torgest, ac Wyneb gafr ap Trwynfflam, ar Talrydd gawr Llygad-coch: a llawer iawn o'i Cenedl gyda phob un o honynt. A chyda Brwyscyn yntau yr oedd Esgudyn ap Derchaflys ap Diawdydd, a Derchafwr Piccynllwyth, ac Achubwr Cwppan llawn, a Minfys ap Diawdcip, a'r Praffwngc ap Succandrai, a'r Penysgafn-fiaeldroel, a'r Ysgwyddgam ap Deudrip, a Llywelyn Lledbey, a Bloescyn ap Tafodffael, a Thafod-fyrr ap Cwsg, a Bleuddyn Cais Wely, a Gwargrwm ap Tywalltgeg: a phlaid fawr o'i tylwyth gyda phob un o honynt hwythau. A tharo mawr ag ymdrin tost a fu rhvngthynt, er pan ddechreuodd y Gad, o fachlud haul ddydd Sul hyd y boreu ddydd Llun; ac yno yr ymadawsant, ac aethant bawb gysgu; Ac yn ol deffroi o honynt ac yfed o bawb eugoreu, hwy a aethant i'r maes brydnhawn, ac ymladd, yn lewdost a wnaethant tan y plygain ddydd Mawrth; ac yno Derchafwr Piccynllwyth, a gafodd ei lawr ddyrnod ar ben y Tadmaeth sef y Capten, ac ai rhoes ef i lawr; a phan welodd ei lu y Capten ar lawr; ffo a wnaethant; a'i hymlidd a wnaeth y lleill i fwch y Cynnogau, ac i lechwedd Piccynfin, ac i fol y Stwn du, ac i Nanty Baril, ac heblaw pentre'r Eglwys, i'r Wttra byllog, ac i fwch yr ysbail, ac i dir y gwystl, ac i'r Hafod lom, ac i'r Buarth gwag, ac i gessail gwagbwrs, ac i frisc y Tylodi, ac i'r Heolydd Hirbryd ac i Bant y Gerdod, ac i dyddyn y llymfaes, ac i'r Tyllau, a'r Tyrâu diwres, ac i'r Ty di ynogor, ac i'r Waun ddiletty, ac i Hendre'r Newyn, ac i fwch oer ddrws ac i'r Uefn llednoeth, ac i Bont Aber Tinllwm, ac i'r Esgair noeth, ac i goed y ddu ddyled, ac i Ogof y lladron, ac i lawr y Carchar, ac i Gwm diarchen, ac i Erw'r Carpiâu, ac i Fôd anwydog, ac i Goed y ddu ddyled, ac i bwll di fath, ac i Stafell di fach, ac i Gil y meliant, ac i berth y Gogan, ac i Allt yr anair, ac i Fryn y Cywilydd, ac i fedd di gynghebrwng, ac i lawer o leoedd diffaith dyrys eraill y maent hwy'n gydnybyddusach a hyepysach arnynt na Myfi. Ond er hys i gyd pan ddaeth Meibion y gwyr hyn mewn oed, ac anser, ymgasglu ynghyd a wnaethant at y rha' oedd yn

fyw o wyr y Tadmaeth, a gosod dau wr yn Gapteiniaid arnynt; un a elwid Capten neu Cynnen Canllw, a'r llall a elwid Gwion gwag fost, neu ffrost, a gosod ymgeintach ar y Brwysgyn a'i wyr yntau y tro yma a wnaethant rhwng dwy dafarn oedd yn yr un buarth, a brwydr tost a fu rhyngthynt dros Dridiau a thair nos, lle bu anffurf dost anufus ar wyr y ddwyblaid; Rhai a'i llafnau hyd y pyllau, rhai yn colli ei gwaed am benau'r parwydydd, rhai yn fnych yn taro gwyr eu plaid eu hunain yn lle gwyr y blaid arall, rhai yn syrthio i lawr yn feirw, ac yn syw drannoeth! a rhai gwedi ei hanafu byth; ond o'r diwedd Brwysgyn a'i wyr yntau a yrwyd i ffoi, rhai i wern y sign, rhai i'r gelli ddyrys, ac i glawdd dwyffoa, a thros y sarn i bwll budr, ac i lawer o leoedd diffaith eraill. Ac os drwg a fu ar y rhai cyntaf, gwaeth a fu ar y rhain, a chymmaint ac a lās o'r ddwyblaid, mae'n berigl rhag i mynd i uffern. Oddieithr i rai o honynt allw ar Dduw am ras, ac edifarhau, ac i ddeisyf yn ddirifol gael o honynt felly drugaredd o'r Ucheider, ond mae'n enhyd oedi'n hwyr. Ac i mae llawer etto yn y byd o hob un o'r ddwy blaid, y rhain wrth gyfarfod a'u gilydd mewn tafarnau sydd ac a fyddant yn meddwl am yr hen gweryl gynt, ac sydd etto yn ceisio dial yr hen lid hwnnw byth ar eu gilydd, yn eu Cyfarfodydd blindarus. Ond nid peth i'w ollwng tros gof, neu angof ydyw hyn, eef y peth a wnaeth y Tadmaeth wrth ymado a'r byd, Pan wybu nad oedd iddo un ffordd ond un, efe a wnaeth ei lythyr cymmun yn ysgrifennedig a'i law ei hunan, ac a yrodd i gyrchu Abad Meddwyn atto, ac a'i gwnaeth yn feldiannol o'i holl dda bydol; ac a orchymmynodd iddo ei gladdu ef yn nesaf y galleu at glawdd y fynwent, yr un a fynneu ai t'r tu fewn, ai o'r tu allan yno. ac adeiladu Tafarn dy uwch ben ei fedd ef, ac na bae, nen na wnae yno na thorr na thrai ar yfed i'r neb a fue gystal ei ewyllys i yfed ac yntau, pe byw fyddai, a gwneuthr hyn er Cof am yr achos i bu ei gorph diriaid ef farw o'i blegid. ac er anrhydedd i'w gorph diniweid ef: Ac os colwydd yw hyn oll, gadewch iddo fod yn galwydd, na wnewch chwi ddim o'r chwedl yn wir ynoch, neu arnoch eich hun. a phoed gwir mae colwydd fyddo byth o hys allan. Amen. O'r *Cydymaith Diddan*, 1768.

† Iaco ab Dewi, *sef* James Davies, "Y Gwr o Benkadair" oedd enedigol o Landysil, yn Ngheredigion, a symudodd od hyno i Blaen Gwyli, plwyf Llanllawddog yn Sir Gaerfyrddin, ac yno, yn 1722 y bu farw. Yr oedd Iaco ab Dewi yu un o feirdd goreu Dyfed yn yr oes hono, yn Hanesydd da, ac yn gasglwr dyfal ar Henafiaethau. Yr oedd hefyd yn un o'r cyfieithwyr goreu yn ei genhedlaeth. Efe a gyfieithiodd y "Meddylieu Neillduol ar Grefydd" o waith Beveridge, ac amryw lyfrau eraill, ac efe oedd un o'r pedwar gwyr a gyfieithasant "Daith y Pererin" gyntaf i'r Cymraeg. Dyma fel y dywed S. (imon) H. (ughes) yn ei ragymadrodd i'r llyfr hwnw, a argraphwyd yn Llundain gan J. Richardson, yn y flwyddyn 1688.

"Y mae'r cyfieithiad o waith pedwar o honom, *sef* Gwr Bonheddig o Wynedd, (yn yr haner olaf o'r llyfr,) gwr o Benkadair, yscolhaig ieuange a ddaeth gyda mi i'r ddinas hon, ac o'm gwaith fy hunan (y rhan fwyaf o hono) gan sefyll ar yswyddau y lleill, fel y gallwn ganfod yn mhellach nag hwyntwy."

Dwedir yn y Gwyllydydd Cyf. 3. tudal. 277. mewn cryhwyllyad am Iaco ab Dewi,---"Efe ydoedd cyfieithydd Faith y Pererin, ychwanegodd a't ac argraphodd y Flores Postarum, o gasgliad y Dr. Davies o Fallwyd, ac yn niwedd y llyfr cyfrgain hwnw, cyhoeddodd gyfres o bonuillion synwylawn, diarhebawl, a dillynaidd." Ond nid yw hynyna yn *gwbl* gywir, oblegyd dengys Rhagymadrodd y Llyfr ei hun mai *nia* efe a'i cyhoeddodd. Y mae un camgymeriad arall wedi cael ei gyhoeddi yn y "Geirlyfr Bywgraffiadol" a gyhoeddir gan I. Foulkes, Rhif. 4ydd, tudal. 217. dyma fel y dywedir yno yn hanes Dr. Davies o Fallwyd.---"Adroddir am dano pan y byddai yn darllen gwahanol lyfrau, ac yn cyfarfod ynddynt â rhyw ymadroddion a'i boddhai yn fwy na chyffredin, ei fod yn arfer rhoddi nodau ar ymyl y ddalen gyferbyn a hwynt. Ac ar ol ei farwolaeth darfu i James Davies (Iaco ab Dewi), o Benkadair, yn Sir Gaerfyrddin gyhoeddi casgliad o'r ymadroddion hyn, a'u hargraffu yn llyfr tan y teitl 'Flores Postarum Britannicorum,' yr hwn a rwyndid gyda Barddoniaeth Salesbury." Oddiwrth y dyfyniad yna rhaid i ni dybied mai James Davies - *was, to id* ynghyd y brawddegau a'r lliuellau a nodasid

ar ymyl y daleneu yn llyfrau y Dr. Davies, ac os felly yr oedd rhaid i'r *oll* o'r llyfrau hynny o eiddo y Dr. ddyfod i ddwylaw Iaco ab Dewi, yr hyn nid ydyw yn gwbl debygol. Yr oedd y Dr. Davies wedi marw o leiaf, *chwa blynedd a thriugain* cyn i'r *Flores* gael ei gyhoeddi, ac y mae I. ab Dewi a'r Parch. D. Lewis gyda'u gilydd wrth baratoi'r wyneb-ddalen iddo yn dweyd---“O gasgliad J. D. SS. Th. D. (fal yr ydys yn tebygu.)” Ymddengys felly yn fwy rhesymol i ni grodu y dywodiad ddaifod i'r casgliad gael ei wneyd gan y Dr. Davies ei hun n, ac i'r Ysgrifgopi yn ystod yr baner cant neu driugain mlynedd wedy'n ddyfod i ddwylaw y casglwr dyfal ar Henafiaethau Iaco ab Dewi, ac yr wyf yn meddwl mai camgymeriad yw dweyd---“Yr hwn a rwymid gyda Barddoniaeth *Salesbury*”---Middleton y dylasai fod. Nid wyf yn gwybod am Lyfr Barddoniaeth o waith *Salesbury* o gwbl, ond y mae hwn yn hen gamgymeriad o'r talm.

b David Lewis, Ficar Llangattwg, awdwr “Golwg ar y Byd” &c. ydoedd ddysgybl, a chyfaill mawr i Iaco ab Dewi, ac ymddengys iddo dderbyn yn lled helaeth o ysbrydoliaeth genedigol ei athraw, ac o'i dueddiadau Henafiaethgar, etto rhy bria y gollir dweyd i ysbrydoliaeth yr awen ddisgyn arno i nemawr enwogrwydd. Cyfansoddodd rai darnau barddonol lled ganolig, er engrafft---Ymddangosodd ei “Beroriaeth Haf,” yn y *Bfodengerld* tudal. 319, ac efe yw awdwr y *Cywddar* “Ddiodeffiadau Crist, yn tudal. 48, o'r argraffiad hwn o'r ‘*Flores Poetarum*,’ ond y mae y naill yn amlygu mwy o ofergoeldd, a'r llall fwy o aduwiol frydedd diniwaid nac o allu awenyddol a chywreinrwydd yn y cynghaneddion, ond er nad ellir euro coffa offeiriad Llanllawddog a chanmoliaeth uchel fel cynghaneddwr awenber, y lleiaf a ellir ei ddweyd am dano, ydyw, ei fod yn hon wladgarwr gonest a thwymgalon, ac yn Gymro o'r iawn ryw.---Purch i'w goffiadwriaeth.

Mae y llinellau prydferth “Oedran a phara pethau bydol a phethau nefol” tudal. 2. i'w gwelod yn yr *Iolo Manuscripts* tudal. 286, ychydig yn wahanol i fel y maent yma, ac y maent yno yn cael eu priodoli i Sion Cent, ac nid i Iolo Goch.---Pwy sydd yn iawn?

Y mae Iolo Morganwg hefyd, a mewn llythyr a ysgrifiodd yn 1805 at y Dr. W. O. Pughe, yr hwn hefyd a gyhoeddwyd yn y Cambrian Journal, vol. 4, Dec. 1857, trefnol 305, yn dweyd fod yn ei felddiant of ysgrifgopi o'r 'Traethawd ar Barddoniaeth gan Catpen Middleton, yn llawer mwy perffuith na'r un a argraphwyd yn niwedd y Flores Poetarum, a bod hwnw yn mwy llawn, ac iddo ragymadrodd destlus, yr hyn nid oes i'r copi argraphedig, ac meddai mi a'i cymeradwywn i astudiaeth pob un o'r Ysgrifauwyr Cymraeg (*Cockniuidd*) yn Llundain, y rhai ydynt gywilyddus ddiwygiol yn y wybodaeth ddefnyddiol a gynnwysa.

Argraphwyd y Llyfr Barddoniaeth o waith y Cadben W. Middleton, y tro cyntaf, yn Llundain, yn y flwyddyn 1693, yn llyfr pedwar-plyg bychan, "Barddoniaeth neu Bryduiaeth y Llyfr Cyntaf," ond nid yw yn ymddangos fod hyd yn oed Iolo Morganwg wedi gwelod erioed gopi cyflawn o hwnw, gan nad yw yn son ond am yr un a argraphwyd yn niwedd y Flores Poetarum.





LLYFRAU, ARGRAPHEDIG AC AR WERTH,

GAN

W. J. Roberts, Llanrwst.

Y MURMURON,

Sef crynodeb b gynnyrchion Awenyddol &c.,

G W I L Y M C O W L Y D,

Wedi eu dosbarthu yn dair adran a chymmlith, sef

CYNGHANEDDOL, DIGRIFOL, A DUCHANOL,

At yr hyn yr ychwanegir

Y FFETAN YSMALDOD,

Yn cynnwys y cymmlith, sef codaid o Ddamegion,
Ystorion a Dyduanion Barddol.

Crown 8vo: Pris 2s.6c. i Danysgrifwyr, 3s. i eraill.

Mil o gopiau yn unig a gynnwysa yr Argraffiad, ac y mae uwchlaw 850 wedi eu herchi eisoes. Mae yr argraffiad yn cael ei hyrwyddo ymlaen gyda phob egni a diwydrwydd, ac oni ddigwydd rhyw anhaf, bydd y Llyr allan erbyn diwrnod ffair newydd Llanrwst nesat, (Mehefin 21.)

GEIRIONYDD,

Sef Cyfansoddiadau Barddonol, Cerddorol, a Rhydd-ierthol; Y PARCH. EVAN EVANS, (*Ieuan Glan Geirionydd*) Ynghyd a Hanes ei Fywyd, a Sylwadau ar ei Athrylith, gan GWALCHMAI, yn un gyfrol. Crown 8vo, Llian, 6s.

Anfoner pob Eirchion am dauynt i W. J. Roberts,

1

2

3

4

5

6



